Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board







# Annual Report

## 2021/2022

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

RHONDDA CYNON TAF

BAVO

Gwasanaeth Prawf
Probation Service

Interlink Rhondda Cynon Taf

VOLUNTARY ACTION MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL MERTHYR TUDFUL

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad a Rhagair – Cadeirydd y Bwrdd | T3 |
| 2. Diogelu yng Nghwm Taf Morgannwg | T4 |
| 3. Aelodau'r Bwrdd Diogelu | T7 |
| 4. Beth wnaeth y Bwrdd yn 2021 -2022 i sicrhau ei ddeilliannau? | T7 |
| 5. Sut gwnaethon ni roi ein Cynllun Blynyddol ar waith a beth oedd ein cyflawniadau allweddol? | T11 |
| 6. Themâu Diogelu | T20 |
| 7. Hyfforddiant Gwybodaeth a Dysgu | T26 |
| 8. Sut rydyn ni wedi cydweithio ag eraill? | T30 |
| 9. Ymgysylltu a Chyfranogi | T31 |
| 10. Cyfraniadau Aelodau'r Bwrdd | T37 |
| 11. Rheoli ein Hadnoddau | T42 |
| 12. Gwaith arall y Bwrdd | T43 |
| Atodiad 1 - Aelodau'r Bwrdd | T46 |
| Rhestr Termau | T48 |

# 1. Cyflwyniad a Rhagair – Cadeirydd y Bwrdd

**Croeso i Adroddiad Blynyddol 2021-2022 Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.**

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Bwrdd gynllun yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bryd hynny, roedd pandemig COVID19 yn parhau i effeithio ar ein hasiantaethau partner. Yn wir, roedd y galw digynsail ar yr asiantaethau yma ynghyd â'r pwysau staffio wedi effeithio eu gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn ystod y cyfnod yma. Er i'r sefyllfa hynny barhau drwy gydol 2021-2022, rydyn ni wedi llwyddo i wneud cynnydd sylweddol mewn sawl agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys ein gwaith parhaus i fynd i'r afael â chamfanteisio ledled y rhanbarth. Rydyn ni hefyd wedi gwneud gwaith da o ran atal hunanladdiadau, a chynnig cymorth i'r rhai sy'n hunan-esgeuluso.

Mae'r Bwrdd wedi ymateb i nifer o ddigwyddiadau difrifol a thrasig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae marwolaeth Logan Mwangi ac erlyn y rhai oedd yn gyfrifol wedi hoelio sylw ar bwysigrwydd hanfodol diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddysgu o'r amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth Logan, a bydd yn gweithredu unrhyw argymhellion o'r Adolygiad Ymarfer Plant yn llawn pan gaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2022.

Wrth i ni symud i 2022-2023, bydd ein gwasanaethau'n parhau i ymateb i bwysau'r galw cynyddol, cymhlethdod y sefyllfa ac effaith barhaus y pandemig. Yn yr amgylchiadau heriol yma, hoffwn i ddiolch yn unigol i bob un person sy'n gweithio i, ac ar ran, ein hasiantaethau partner. Boed hynny yn ein hysbytai, cartrefi gofal, yn y gymuned ac ar reng flaen y gwasanaethau darparu, diolch i chi am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad i ddiogelu pobl Cwm Taf Morgannwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Pe hoffai unrhyw un ddysgu rhagor am y Bwrdd Diogelu, mae croeso i chi anfon neges at ein Huned Fusnes trwy e-bostio: diogeluctm@rctcbc.gov.uk. .



Paul Mee
Cadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

# 2. Diogelu yng Nghwm Taf Morgannwg

**Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle mae bron i 428,000 o drigolion yn byw.[1]**

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg** yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Nod y Bwrdd yw sicrhau bod pobl o bob oed yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Caiff gwaith y Bwrdd ei gyflawni ar sail strwythur Is-grŵp. Ei nod yw ceisio cynorthwyo â gwaith diogelu amlasiantaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Mae'r Prif Bartner (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) yn cyflogi staff Uned Fusnes y Bwrdd, ac yn gofalu am gyllideb y Bwrdd. Mae'r asiantaethau partner statudol yn cyfrannu at y gyllideb yma.

Mae'r ddau amcan **diogelu** allweddol, sef **amddiffyn** ac **atal** yn sail i waith y Bwrdd ac yn llywio'r blaenoriaethau bob blwyddyn.

Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Bwrdd wedi eu nodi yn y canllawiau statudol o dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am herio asiantaethau perthnasol fel bod:

- mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion sy'n dioddef niwed neu sy'n wynebu risg o ganlyniad i gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed, a bod
- asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau diogelu a rhannu gwybodaeth.

## Diogelu Plant

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig yn diffinio 'plentyn' yn berson o dan 18 oed.

Mae Adran 130 (4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn diffinio plentyn sy'n wynebu risg yn blentyn sydd:

- Yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'i niweidio mewn unrhyw ffordd arall (neu'n agored i niwed gan yr uchod)
- Ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r Awdurdod Lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio).

### Beth yw ystyr niwed?

Diffiniad niwed yw:

- Triniaeth wael - mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol;
- Amhariad gwael ar iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys dioddef niwed o weld neu glywed unigolyn arall yn cael ei drin yn wael);

[1] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

- Amhariaeth wael ar ddatblygiad deallusol, corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys dioddef niwed o weld neu glywed unigolyn arall yn cael ei drin yn wael).

### Mathau o Niwed

Dyma restr o enghreifftiau (sydd ddim yn gynhwysfawr), ar gyfer pob un o'r categorïau o gam-drin ac esgeulustod sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrol 5 - Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 - Ymdrin ag Achosion Unigol er mwyn Diogelu Plant sy'n Agored i Niwed

- **Cam-drin corfforol** - taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliad gormodol neu sancsiynau amhriodol;
- **Cam-drin emosiynol/seicolegol** - bygwth niweidio neu adael, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin ar lafar neu hiliol, ynysu neu dynnu o wasanaethau neu rwydweithiau cynorthwyol, gweld eraill yn dioddef o niwed;
- **Cam-drin rhywiol** - gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn effro i'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol; gweithgareddau heb fod angen cyffwrdd, e.e. cynnwys plant yn rhan o'r weithred o edrych ar ddeunydd pornograffig, neu eu cynnwys yn y weithred o'i gynhyrchu, neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu eu hannog i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol;
- **Cam-drin ariannol** - bydd y categori yma'n llai cyffredin i blentyn ond gallai'r dangosyddion fod:
    - Peidio â diwallu eu hanghenion gofal a chymorth a gaiff eu darparu trwy daliadau uniongyrchol; neu
    - Cwynion bod eiddo personol wedi mynd ar goll.

- Esgeulustod - methu â diwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o olygu y bydd yn amharu ar eu hiechyd neu'i ddatblygiad.

## Diogelu Oedolion

Mae Adran 126 (1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg yn oedolyn sydd:

- yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu mewn perygl o'r rhain;
- angen gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), ac
- oherwydd yr anghenion hynny, yn methu ag amddiffyn ei hunan rhag cael ei gam-drin neu'i esgeuluso, neu rhag wynebu'r risg yma.



Mae modd i gamdriniaeth fod yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu'n ariannol (gan gynnwys lladrad, twyll, pwysau am arian, camddefnyddio arian). Mae modd i hyn ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn eiddo preifat, sefydliad neu unrhyw le arall.

Mae esgeuluso'n golygu peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les (e.e. amharu ar ei iechyd). Mae modd i hyn ddigwydd mewn ystod o leoliadau, e.e. annedd breifat neu ddarpariaeth gofal preswyl neu ofal oriau dydd.

## Rhoi Gwybod am Bryderon

Yng Nghwm Taf Morgannwg, caiff unrhyw bryderon diogelu eu hadrodd i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Mae'r manylion cyswllt perthnasol ar ddiwedd yr adroddiad yma.

Mae **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf** yn rhan o strwythur y Bwrdd Diogelu. Yr Hwb yw'r man cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sydd eisiau rhoi gwybod am bryderon diogelu ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Hwb wedi bod yn gwbl weithredol ers mis Mai 2015. Cafodd ei sefydlu i wella arferion diogelu, a hynny drwy drefniant bod asiantaethau'n gweithio ar y cyd. Mae'r holl atgyfeiriadau diogelu yn dod i law'r Hwb, sy'n golygu bod modd i asiantaethau rannu gwybodaeth berthnasol er mwyn dod i benderfyniadau ar y cyd. Mae'r sefydliadau canlynol yn Bartneriaid Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf: Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Charfanau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Addysg, a'r Garfan Dyletswydd Brys.

**Mae gwaith yr Hwb yn cynnwys:**

- Diogelu / Amddiffyn Plant
- Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg
- Cam-drin Domestig (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg, sef MARAC)

**Mae nodau allweddol yr Hwb yn ymwneud â'r themâu canlynol:**

- Gwella cyd-drefniant a chysondeb prosesau penderfynu/cyrraedd trothwyon pan fydd pryderon yn codi.
- Gwella amseroedd ymateb, a fydd yn golygu bod modd cynnal ymyriadau yn gynharach
- Lleihau achosion o atgyfeiriadau yn cael eu gwneud dro ar ôl tro

Mae gweithdrefnau Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gweithredu'n gyflym i gasglu a phrosesu gwybodaeth, ac mae cyfarfodydd rhithwir newydd wedi gwella'r gwaith yma ers 2020. Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau cywir, priodol a chymesur mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion mewn perygl.

Yn ystod 2021-2022 roedd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn parhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r holl bryderon diogelu yn brydlon mewn lleoliad amlasiantaethol. Mae partneriaid wedi gweithredu'n rhithwir ac yn gorfforol gyda chyfuniad o weithio mewn swyddfa a gweithio o bell o fewn cyfyngiadau sydd wedi bod yn destun i asesiad risg Covid.

Mae **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr** wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2018. Partneriaid Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr yw Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a

Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Carfan Diogelu Oedolion, Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Plant a phobl ifainc), Cymorth Cynnar, Addysg, Tai, Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau.

**Nodau allweddol Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr yw:**

- Defnyddio cudd-wybodaeth well i symleiddio'r broses benderfynu
- Mynd i'r afael â risgiau ar y cyd
- Sicrhau bod cyfle i ymyrryd yn gynnar ac atal atgyfeiriadau sy'n digwydd dro ar ôl tro
- Creu'r galw ond bod modd lleihau atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud fwy nag unwaith yn effeithiol

Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Gweithredol Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Rheoli Gweithredol Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r ddau fwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth gan yr holl bartneriaid. Mae'r Byrddau a'r Grwpiau yma wedi parhau i gwrdd trwy gydol y flwyddyn i arwain Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr ar lefel weithredol a strategol.

Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi parhau i weithredu'n gorfforol ac yn rhithwir ers 2020, er mwyn sicrhau bod cymorth yn parhau i gael ei roi i unigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr pan fo pryderon diogelu yn bodoli. Mae asesiad risg cynhwysfawr wedi galluogi pobl i weithio mewn amgylchedd diogel. Mae partneriaid yn gweithio ar sail rota yn eu hasiantaethau i sicrhau bod pellter cymdeithasol yn cael ei gynnal.

Rhywbeth allweddol mae'r Bwrdd yn canolbwyntio arni er mwyn gwneud y gwaith o ddiogelu amlasiantaeth ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn fwy effeithiol ac effeithlon, **yw bod y ddau Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn cydweithredu**.

# 3. Aelodau'r Bwrdd Diogelu

Prif bartner y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol sydd yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Mae rhestr o aelodau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

# 4. Beth wnaeth y Bwrdd yn 2021-22 i sicrhau ei ddeilliannau?


### Trefnau Llywodraethu

Mae gan y Bwrdd Diogelu strwythur llywodraethu cadarn ar waith (Atodiad 2) sy’n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant ac oedolion sydd mewn perygl yng Nghwm Taf Morgannwg.


## Cyflawniad

Mae gan y Bwrdd fframwaith cyflawniad ar waith i gasglu data diogelu aml-asiantaeth.

Mae **nifer yr adroddiadau mewn perthynas ag oedolion mewn perygl** yn cael ei gyflwyno yn y tabl isod:






Dyma ddeilliannau'r adroddiadau:




Mae modd priodoli'r gwahaniaethau yn y canrannau ledeld yr awdurdodau lleol i wahaniaethau yn y data sy'n cael ei adrodd.

Mae'r data sy'n ymwneud ag amddiffyn plant fel a ganlyn:




## Herio a Chraffu

Mae'r Bwrdd yn cydlynu gwaith diogelu ei asiantaethau partner trwy eu monitro a'u herio'n effeithiol. Caiff y gwaith yma ei gynnal yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Is-grwpiau, a thrwy gynnal adolygiadau, adroddiadau arolygiad ac archwiliadau. Eleni, fe ailgyflwynon ni **Archwiliad Cydymffurfiaeth Adran 135 Asiantaethau Partner** er mwyn craffu ar drefniadau lleol ac asesu a yw partneriaid yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol o ran diogelu. Cwblhaodd pob asiantaeth hunanwerthusiad o'u cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- Trefnau Llywodraethu
- Effeithiolrwydd Diogelu
- Polisïau a Gweithdrefnau
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Diwylliant Dysgu
- Cydweithredu

Braf oedd nodi bod y rhan fwyaf o asiantaethau wedi graddio eu hunain yn dda neu'n rhagorol mewn perthynas â chydymffurfiaeth. Mae cynnydd cyffredinol hefyd wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf yn 2019-2020. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliad i Ddiwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Ionawr 2022, a llywiodd y canlyniadau flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Roedd yr arfer da a nodwyd yn cynnwys:

- Denu a phenodi gweithwyr mewn modd diogel
- Cynrychiolaeth ar y Bwrdd a'r is-grwpiau
- Hyfforddiant
- Adnoddau Sicrhau Ansawdd
- Dulliau o rannu protocolau a pholisïau
- Cyfathrebu effeithiol gyda staff
- Rhannu'r Dysgu yn sgil yr Archwiliadau a'r Adolygiadau
- Cydweithio cryf

Roedd Meysydd i'w gwella'n cynnwys:

- Gwella effeithiolrwydd diogelu i ymdopi â'r galw cynyddol ac effaith y pandemig;
- Hyfforddiant a chymorth i staff
- Mesur effaith protocolau a pholisïau
- Cyfathrebu â'r cyhoedd
- Rhannu dysg
- Argaeledd Cadeiryddion ac Adolygwyr annibynnol i gynnal Adolygiadau Ymarfer
- Cymorth/hyfforddiant i staff sy'n mynd i gyfarfodydd Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDICs) a Grwpiau Ymateb Dybryd (IRGs)

Eleni, cyflwynodd y tri awdurdod lleol a Charchar Parc EF eu hadroddiadau ar ddeilliannau'r arolwg i'r Bwrdd Diogelu, gan amlinellu camau gwella penodol yn ymwneud â diogelu.

## Anghydfodau Proffesiynol

Mae protocol y Bwrdd ar gyfer Pryderon am Arferion Diogelu Rhyngasiantaethol (protocol CRISP yn Saesneg), yn rhoi cymorth i ymarferwyr i ddod o hyd i ateb pan fyddan nhw wrth eu gwaith proffesiynol yn anghytuno ag arfer diogelu asiantaeth arall, neu'n prydeu amdano.

Cyn defnyddio'r protocol yma, dylai'r ymarferydd geisio adfer anghydfod neu bryderon gyda'i swyddog cyfatebol yn yr asiantaeth dan sylw. Rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod datrysiad yn cael ei gyrraedd o fewn yr amserlen fyrraf bosibl a bod diogelwch y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth.

Os does dim modd datrys yr anghydfod, dylai'r ymarferydd siarad â'i reolwr neu arweinydd diogelu ei sefydliad. Dylai'r rheolwr/swyddog diogelu arweiniol drafod y pryderon gyda'r swyddog cyfatebol yn y sefydliad arall a cheisio datrys y mater o fewn 5 diwrnod gwaith.

Os na chaiff y mater ei ddatrys ar ôl y camau hynny, mae modd mynd â'r mater i Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu i gydlynu ymateb/Bydd yr ymateb yma'n cael ei adrodd i'r Is-grŵp Sicrhau Ansawdd perthnasol.

Isod fe welwch nifer yr achosion a gafodd eu hadrodd i'r Bwrdd yn dilyn diffyg datrysiad:

Rhondda Cynon Taf - 11
Merthyr Tudful - 4
Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (adrodd ar y cyd)- 1
Pen-y-bont ar Ogwr – 0

**Astudiaeth Achos**
Yn dilyn cyfarfod strategaeth pryderon proffesiynol Rhan 5, nodwyd bod aelod o staff banc wedi'i gyflogi heb i wiriadau digonol gael eu gwneud. Yn dilyn hynny, doedd hi ddim yn glir pa broses oedd ar waith er mwyn i'r Bwrdd Iechyd gynnal gwiriadau, na chwaith pwy oedd yn gyfrifol am wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) pan gafodd pryderon eu cadarnhau. Yn yr achos yma, Prif Arweinydd Diogelu'r awdurdod lleol wnaeth yr atgyfeiriad. Codwyd CRISP gan yr awdurdod lleol ac, o ganlyniad, cafodd adolygiad o arferion a pholisi cyfredol ei gynnal gan y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad i'r adolygiad, cafwyd newidiadau mawr i sicrhau bod recriwtio staff banc yn broses ddiogel.

### Rheoli Busnes a Chymorth i Fusnesau
Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan yr Uned Fusnes Diogelu sy'n darparu cymorth rheoli, cydlynu a gweinyddol mewn perthynas â diogelu. Mae CBS Rhondda Cynon Taf yn cynnal Uned Fusnes y Bwrdd ac yn dal cyllideb gyfun ar gyfer y Bwrdd.

# 5. Sut gwnaethon ni roi ein Cynllun Blynyddol ar waith a beth oedd ein prif lwyddiannau?

Cyhoeddodd y Bwrdd ei Gynllun Blynyddol ar 31 Mawrth 2021, gan nodi'r blaenoriaethau ar gyfer diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion yn 2021/22.

**Mae modd dod o hyd i Gynllun Blynyddol 2021/22 yma:** www.ctmsb.co.uk

## *Cyflawniadau Allweddol*

### Hunanesgeulustod

Cafodd dull rhanbarthol o reoli achosion o hunan-esgeuluso ymysg oedolion ym mis Hydref 2021. Cafodd ddogfen Protocol a Chanllaw Hunan-esgeuluso ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021. Sefydlwyd tri Phanel Partneriaeth Hunanesgeuluso, dan arweiniad adran Gwasanaethau Oedolion pob awdurdod lleol, gyda chynrychiolaeth amlasiantaeth.

Cyflwynwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth i 400 o bobl ar draws y rhanbarth.

Yn y 6 mis cyntaf, daeth 31 o atgyfeiriadau i law, gyda 15 yn cael eu trafod yn y Panel. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y Paneli'n gwneud gwahaniaeth go iawn i ddeilliannau ar gyfer dinasyddion perthnasol.

**Astudiaeth Achos - Hunanesgeuluso**

Mae Mr B, dyn sengl canol oed, yn byw ar ei ben ei hun mewn fflat Cymdeithas Tai un ystafell wely. Cafodd ei gyfeirio at y Panel Partneriaeth Hunanesgeuluso gan ei weithiwr Cymorth Tai, a oedd yn bryderus ynghylch faint o bwysau roedd Mr B wedi colli'n

ddiweddar a faint o alcohol roedd e'n ei yfed bob dydd.

Mae ganddo nodweddion Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ond does dim diagnosis ffurfiol ganddo fe. Mae ei amodau byw yn wael. Mae cymaint o sbwriel wedi casglu yn y fflat, fel nad oes modd gweld y llawr mewn unrhyw ystafell oherwydd bod papurau, caniau a bwyd yn ei orchuddio. Mae'r sbwriel yn ei ystafell wely'n cyrraedd ei bengliniau ac mae bwyd yn pydru yn ei oergell. Dydy e ddim yn ymolchi yn y bath nacc yn y gawod, gan fod y bath yn llawn dillad budr. Doedd e ddim yn defnyddio'r peiriant golchi ac roedd bob amser yn gwisgo dillad a oedd wedi'u baeddu.

Mae Cymorth Tai wedi bod yn gysylltiedig ers 18 mis ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn y cyfnod hwnnw. Cafodd Mr B ei atgyfeirio at y Gwasanaethau i Oedolion, ond doedd e ddim yn fodlon ymgysylltu â nhw. Mae cynllun gweithredu yn ei le lle i wella amodau'r eiddo gan ei fod yn torri amodau ei denantiaeth, ond nid oes dim wedi newid.

Roedd achos Mr B yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Panel a dyma'r atyfeiriwr yn cyflwyno'i achos. Cytunodd cynrychiolydd y Gwasanaethau i Oedolion ar y Panel i neilltuo achos Mr B i weithiwr cymdeithasol unwaith eto. Byddai modd i'r person hwnnw weithio'n agos gyda'r gweithiwr Cymorth Tai i geisio cysylltu â Mr B yn y lle cyntaf, cyn ceisio meithrin perthynas gadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth er mwyn asesu ei anghenion.

Roedd y strategaeth yma'n llwyddiannus ac mae’r gweithiwr cymdeithasol wedi gweithio’n galed i gadw mewn cysylltiad. Mae wedi llwyddo i gytuno ar nodau a blaenoriaethau camau gweithredu gyda Mr B, ac wedi gweithio gydag ef i glirio'r sbwriel yn ei fflat. Cliriodd Carfan Cyfleusterau'r Cyngor y gwely gan nad oedd modd ei ddefnyddio, ynghyd â'r carpedi budr. Rhoddodd y gweithiwr cymdeithasol gymorth i Mr B i brynu rhai newydd.

Mae’r Gweithiwr Cymdeithasol hefyd wedi llwyddo i gytuno ar Gynllun Gofal a Chymorth gyda Mr B, i’w gymell i weld ei Feddyg Teulu gyda chymorth, ac mae wedi derbyn atgyfeiriad i’r gwasanaethau alcohol. Mae’n gweithio nawr ar gael taliad uniongyrchol fel bod modd i Mr B barhau i gael cymorth i ofalu amdano’i hun a chynnal y gwelliannau yn ei amodau byw. Er mai'r her fydd cynnal cynnydd, mae'r arwyddion cynnar yn dda ac mae ansawdd bywyd Mr B wedi gwella'n sylweddol.

## Fframwaith Dysgu

Cafodd Fframwaith Dysgu a Gwella rhanbarthol ei gymmeradwyo gan y Bwrdd yn gynnar yn 2022. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r sut y bydd dysg yn cael ei nodi, ei lledaenu a’i rhoi ar waith yn ymarferol o fewn cyd-destun amlasiantaethol. Diben hynny yw gwella deilliannau i blant, pobl ifainc ac oedolion yng Nghwm Taf Morgannwg. Bydd y fframwaith yn ei gwneud hi'n bosibl i wneud asesiad trwyadl o ansawdd trefniadau diogelu amlasiantaethol. Yna, fe fydd modd i ni ddysgu o'r asesiad hynny er mwyn gwneud gwelliannau i brosesau diogelu, a fydd yn ei dro, yn gwella deilliannau i blant ac oedolion mewn perygl.

Yn rhan o ddatblygiad y fframwaith dysgu, mae Cronfa Ddata Themâu Dysgu wedi'i sefydlu, i gofnodi'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau ac archwiliadau. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y gronfa ddata yma'n cael ei chyflwyno i grŵp hyfforddi a dysgu'r Bwrdd bob chwarter, gan alluogi'r Bwrdd i nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â themâu a materion cyffredin sy'n dod i'r amlwg. Ymhlith y themâu hynny mae:

- Diffyg cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- Cydymffurfiaeth ffug
- Cadw cofnodion a chywirdeb y cofnodi
- Effeithlonrwydd y broses asesu

- Effeithiolrwydd y broses adrodd ac atgyfeirio
- Pontio o blentyndod i oedolaeth

Mae Fframweithiau Dysgu Unigol wedi'u mabwysiadu mewn rhai asiantaethau partner. Er enghraifft, mae Fframwaith Dysgu Gwasanaethau i Blant RhCT yn canolbwyntio ar ymgorffori dysgu a gwerthuso effaith y dysgu.

## Y Grŵp Monitro

Eleni, i reoli'r nifer cynyddol o adolygiadau ymarfer sy'n cael eu cynnal gan y Bwrdd, ac yn unol â'r Fframwaith Dysgu a Gwella newydd, cafodd grŵp monitro amlasiantaeth pwrpasol ei sefydlu. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis ac mae'n gyfrifol am fonitro'r cynlluniau gweithredu a sicrhau bod argymhellion yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.

## Atal Hunanladdiad

Mae'r Bwrdd wedi parhau i gydweithio â phartneriaethau ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r agenda atal hunanladdiad a hunan-niwed. Eleni, dyma sefydlu Grŵp Adolygu Hunanladdiad amlasiantaeth. Mae’r grŵp yn derbyn gwybodaeth am amheuon o hunanladdiadau cyflawn sy'n cael ei chadw gan y Bwrdd, ac sy'n cael ei rheoli o dan y protocol ymateb ar unwaith. Mae'r wybodaeth yma'n golygu fod modd i ni nodi themâu, demograffeg a sbardunau a all fod o gymorth i ni i fynd i’r afael â’r agenda hynod bwysig yma. O ran ffactorau cyfrannol, cafodd y themâu allweddol canlynol eu nodi yn ystod 2021-2022:

- **Yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl -** roedd 52% yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn gyson â'r adroddiad diweddaraf ar Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch mewn Iechyd Meddwl sy'n nodi bod 50% o'r rheiny a gyflawnodd hunanladdiad yn y 10 mlynedd diwethaf yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl Os bydd rhywun yn cyflawni hunanladdiad o fewn blwyddyn ar ôl cael ei gyflwyno i wasanaethau iechyd meddwl, caiff yr hunanladdiad yna'i ystyried yn ddigwyddiad lleol neu genedlaethol y dylid adrodd arno. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i'r achos er mwyn dysgu ohono.
- **Perthynas yn chwalu -** roedd hyn yn ffactor mewn 41% o achosion hunanladdiad cyflawn tebygol. Mae gwaith pellach ar y gweill i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater yma.
- **Ymdrechion blaenorol -** roedd 37% o'r achosion wedi ceisio hunanladdiad o'r blaen. Mae'r ffigurau hyn wedi'n hysgogi ni yn y dyfodol i ystyried edrych ar achosion arwyddocaol o hunanladdiad sydd bron wedi llwyddo.
- **Camddefnyddio sylweddau -** cofnodwyd bod 33% wedi camddefnyddio sylweddau. Mae’r berthynas rhwng camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ag iechyd meddwl yn un sy’n peri pryder gan fod asesiad iechyd meddwl yn aml yn cael ei wrthod i’r bobl hynny sydd dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol. Efallai fyddan nhw ddim felly'n cael cymorth a chyngor amserol o ran eu hiechyd meddwl.
- **Cyhuddiadau troseddol -** roedd y rhain yn ffactor mewn 28% o'r achosion. Roedd y cyhuddiadau troseddol yn amrywio o droseddau'n ymwneud â cham-drin yn y cartref, meddu ar ddelweddau plant a cham-drin plant yn rhywiol. Mae trafodaethau pellach wedi cynnwys y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar. Roedd awgrym y byddai asesiad risg o bosibl yn fuddiol mewn achosion yn ymwneud â  cham-drin plant, er mwyn deall beth sydd wedi'i wneud i osgoi hunanladdiad.

Ar ôl adolygu'r themâu a'r tueddiadau dros gyfnod o flwyddyn, mae'r grŵp wedi cydnabod y byddai argymhellion ar gyfer ymyriadau a gwaith ataliol o bosibl yn lleihau'r risg bod pobl yn cyrraedd sefyllfa argyfyngus. Serch hynny, bydd angen i wasanaethau ledled Cwm Taf Morgannwg ymgysylltu ag arferion a fyddai'n gymorth i'r rhai sydd mewn perygl o feddwl am hunanladdiad, a'u mabwysiadu. Mae cyfeirio at wasanaethau cymorth yn bwysig, ond mae angen i'r ymarferydd sicrhau bod y cymorth yn hygyrch ac yn diwallu anghenion unigol. Gyda chymaint o ffactorau cyfrannol wedi'u nodi, bydd angen i'r grŵp benderfynu ym mha drefn i flaenoriaethu hyfforddiant, addysg ac adnoddau i gael yr effaith fwyaf posibl.

## Protocolau a Gweithdrefnau

Cafodd y protocolau a dogfennau canllaw canlynol y Bwrdd eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod 2021-2022:

- Gweithdrefn Gwyno
- Canllawiau Cwsg Diogel i Fabanod
- Cleisio ac Anafiadau Meinwe Meddal mewn Plant sydd Ddim yn Gallu Symud yn Annibynnol

Cafodd y protocolau a'r canllawiau canlynol mewn perthynas â Chynadleddau Amddiffyn Plant eu diweddaru a'u rhanbartholi eleni:

- Y Gofrestr Amddiffyn Plant – y Protocol ar gyfer Ymholiad
- Protocol Cynhadledd Amddiffyn Plant i Ymarferwyr
- Canllawiau Grŵp Craidd a'r Broses Benderfynu

## Llwyddiannau Asiantaethau Partner

- Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gweithiodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel yn agos gyda Charchar Parc Ei Fawrhydi i sicrhau bod ein cyfrifoldebau diogelu ar gyfer yr oedolion a'r bobl ifainc â dedfryd garcharol yn cael eu cyflawni. Bu nifer o achosion heriol a oedd yn gofyn am gydweithrediad amlasiantaeth gan weithwyr sy'n cael eu cyflogi gan G4S a'r Awdurdod Lleol.
- Mae'r Hwb Amddiffyn Plant Meddygol wedi gwella arferion diogelu a chydweithio. Mae adborth gan asiantaethau, teuluoedd a phlant, wedi arwain at welliant yn y profion meddygol i'r sawl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Maen nhw bellach yn fwy amserol a chydgysylltiedig, gan sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar y plentyn bob tro ac yn achosi llai o bryder i bawb sy'n gysylltiedig.
- Comisiynodd y Gwasanaethau i Blant Wasanaeth Cymorth Amlasiantaeth Sefydlog ('MAPPS'), i ddarparu gwasanaeth ymyrraeth therapiwtig. Mae'r ymyrraeth arbenigol yma ar gyfer y plant hynny sydd wedi bod mewn gofal, y plant mae eu lleoliadau wedi methu a'r plant sy'n mynd i gael eu mabwysiadu neu eisoes wedi cael eu mabwysiadu. Mae'r ymyrraeth ar gael ledled y rhanbarth i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth. Mae'n rhoi cymorth gydag ymddygiad ymosodol yn ystod plentyndod, hunan-niweidio, dianc, meddwl am hunanladdiad, a phrofiadau o gam-drin rhywiol, herfeiddiad, iselder a llawer mwy.
- Gan fod mwy o weithgarwch wyneb yn wyneb yng Ngwasanaeth Troseddau'r Ifainc

yng Nghwm Taf, mae nifer y bobl ifainc sydd ddim yn ymgysylltu wedi gostwng. Lle bo modd gwneud hynny, mae Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc wedi ailddechrau'r arfer o ymweld plant mewn ysgolion. Mae'r dull yma'n llwyddo er bod ymweliadau rhithwir yn parhau.

- Penododd Carchar Parc EF Arweinydd Diogelu newydd ym mis Mehefin 2021.
- Parhaodd CBS Merthyr Tudful i gryfhau ei Hybiau Cymorth Cynnar gyda staff Iechyd a Heddlu yn cael eu cydleoli yn yr Hwb. Yn ystod 2021-2022 bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd a oedd yn ceisio cymorth cynnar yn yr awdurdod lleol. Cafodd 149 o sesiynau eu cynnal gydag asiantaethau partner i wella'u hymwybyddiaeth o'r Hwb Cymorth Cynnar. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Addysg, y Gwasanaeth Iechyd, Hwb Cymunedol y Twyn, Cynghorwyr yr Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl, Cymorth i Ferched, a'r rhaglen Change Step i gynfilwyr.
- Mae Heddlu De Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod diogelu, diogelwch cymunedol a phlismona yn y gymdogaeth yn cydgysylltu i ddarparu gwell ymateb i bryderon diogelu gan gynnwys plismona ataliol. Mae ail alinio ystod o swyddogaethau mewnol, o'r carfanau plismona yn y gymdogaeth i bortffolio Diogelu'r Uwcharolygwyr wedi ategu'r gwaith yma.

***Mae crynodeb isod o'r gwaith a gyflawnodd y Bwrdd mewn perthynas â'i flaenoriaethau strategol:***

## Blaenoriaeth Strategol 1: Sicrhau Ymateb Effeithiol i Effaith Pandemig COVID-19

### Dysgu Gwersi i Wella Diogelu Amlasiantaethol

Eleni, parhaodd y Bwrdd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio llwyfannau rhithwir i gynnal cyfarfodydd a darparu hyfforddiant. Cafodd tri chyfarfod rhithwir eu cynnal i gynorthwyo â'r Adolygiadau Ymarfer.

Cafodd yr Hybiau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) eu cynnal drwy gydol y pandemig. Llwyddodd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf i weithredu trwy gydol rhan helaeth o'r flwyddyn. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dyma asesiad risg Hwb Diogelu Amlasiantaeth cynhwysfawr yn cael ei gwblhau i sicrhau bod asiantaethau partner yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn gweithio mewn amgylchedd diogel ac yn cydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Adolygodd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf a Hwb Diogelu Pen-y-bont ar Ogwr eu trefniadau llywodraethu presennol er mwyn rhannu arfer da ar draws y rhanbarthau a lleihau dyblygu. Mae'r gwaith yma'n cynnwys adolygiad cydweithredol o'r system rhannu gwybodaeth a hefyd yr archwiliad cyflawniad cydgysylltiedig sy'n mynd rhagddo yn 2022-2023.

Cafodd gweithdai amlasiantaeth i ymarferwyr eu cynnal ym mis Gorffennaf/Awst 2021 i adolygu prosesau a chwmpasu gofynion manwl y system newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddiogelu. Canlyniad y gweithdai yma oedd manyleb yn amlinellu'r gofynion diogelu ar gyfer llwyfan newydd. Cafodd opsiynau amrywiol eu hystyried, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu swyddogaethau yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae defnyddio Microsoft Office 365 hefyd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

## Cyflawni camau gweithredu sydd dal heb eu cyflawni o 2020-2021

Dyma ni'n sicrhau bod camau gweithredu a oedd ddim wedi'u cyflawni o'r flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig, wedi'u cyflawni. Roedd y gwaith yma'n cynnwys cwblhau archwiliadau a phrotocolau a oedd yn y broses o gael eu gwneud, ond ddim eto wedi'u cwblhau.

Cafodd archwiliad amlasiantaeth o gam-drin yn y cartref ei gwblhau er mwyn diogelu plant ac oedolion. Cafodd themâu dysgu eu nodi a'u gweithredu lle'r oedd hynny'n briodol, gan gynnwys:

- Doedd asiantaethau cam-drin yn y cartref ddim bob tro'n bresennol mewn cynadleddau a/neu grwpiau craidd, hyd yn oed pan mai nhw oedd yn gyfrifol am atgyfeirio
- Doedd y tadau (cyflawnwyr y drosedd) ddim bob tro'n cael eu cynnwys mewn cynadleddau a/neu grwpiau craidd
- Oedi wrth rannu gwybodaeth
- Ymateb i ddigwyddiadau mewn modd amserol
- Dehonglydd ddim ar gael i gynorthwyo'r fam
- Tystiolaeth dda o siarad â phlant ar eu pen eu hunain
- Ymweliadau ar y cyd effeithiol
- Mae angen amserlen ar bwyntiau gweithredu

Cafodd yr hyn a ddysgwyd o'r archwiliad ei fwydo'n ôl i fframweithiau sicrhau ansawdd asiantaethau unigol a chafodd camau gwella priodol eu gweithredu.

Yn ogystal â hynny, cafodd ail-archwiliad o achos yn 2018 ei gynnal i werthuso’r effaith ar arfer. Nodwyd bod cynnydd da a nifer o welliannau i arferion a pholisïau wedi'u gwneud yn yr amser ers yr adroddiad gwreiddiol.

## Rhoi Llais yn Ôl i Bobl

Roedden ni am sicrhau bod modd i'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf ymgysylltu unwaith eto â gwasanaethau. Dyma asiantaethau'n manteisio i'r eithaf ar lwyfannau rhithwir ac amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i hwyluso'r gwaith yma. Cafodd dulliau arloesol eu mabwysiadu, megis hwyluso amser teulu mewn ardaloedd awyr agored.

Cafodd adolygiad o Gynadleddau Amddiffyn Plant ei gynnal gan ganolbwyntio ar gryfhau gallu'r cynadleddau i lywio newid. Bydd y fformat newydd yn canolbwyntio mwy ar gydgynhyrchu cynlluniau amddiffyn plant gyda theuluoedd ac asiantaethau ehangach. Yn rhan o'r adolygiad roedd barn a phrofiadau partneriaid a theuluoedd er mwyn llywio newid cadarnhaol.

Rhoddodd asiantaethau sy'n gweithio i ddiogelu oedolion, gymorth i ddarparwyr gofal trwy weini cronfa galedi a sicrhau felly bod gwasanaethau'n parhau ar gyfer oedolion mewn perygl.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Astudiaeth Achos**
Roedd gweithiwr cymdeithasol a oedd yn rhan o'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi llunio a gweithredu dull i leihau lefel y pryder a allai fod gan blentyn wrth gwrdd â gweithiwr cymdeithasol am y tro cyntaf.

Roedd hyn yn cynnwys llunio proffil syml o'r gweithiwr cymdeithasol sy'n rhestru ei ddiddordebau, ei hoff a'i gas bethau a'i lun. Cafodd y dull yma o weithredu effaith gadarnhaol ac mae wedi'i gyflwyno ar draws y garfan.

## Diogelu Pobl sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal

Wrth i gyfyngiadau'r pandemig godi, roedden ni eisiau sicrhau ein bod ni'n parhau i ddiogelu pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Yn sgil gostyngiad parhaol yn nifer yr achosion o COVID drwy gydol y flwyddyn, cafodd ymweliadau wyneb yn wyneb diogel eu trefnu ar gyfer aelodau teulu'r preswylwyr.

Roedd nifer y darparwyr a oedd yn codi pryderon, gan gynnwys cartrefi gofal yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r is-grŵp sicrhau ansawdd a'r is-grŵp cyflawniad. Nifer y pryderon a ddaeth i lawr yn ystod 2021-2022 oedd:

Rhondda Cynon Taf - 9

Merthyr Tudful - 1

Pen-y-bont ar Ogwr – 0

Lluniodd yr asiantaethau hynny sy'n cydweithio i ddiogelu oedolion bolisi diogel ar gyfer y rheiny sy'n cael eu rhyddhau i gartrefi gofal.

## Lles y Gweithlu

Daeth y pandemig â heriau sylweddol i'r gweithlu. Roedd newidiadau i drefniadau gwaith, newidiadau mewn blaenoriaethau a salwch staff/staff yn hunanynysu yn bellach nodweddion allweddol o arferion gwaith. Roedden ni eisiau sicrhau bod staff yn cael cymorth a bod eu lles yn cael ei flaenoriaethu.

Dyma ofyn asiantaethau i adrodd i'r Bwrdd ar y trefniadau a oedd ar waith ganddyn nhw er mwyn cefnogi lles eu staff. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau briffio rheolwyr, arolygon ac offer lles a swyddogion lles pwrpasol i ddarparu cwnsela a hyfforddiant. Cafodd hyfforddiant pwrpasol ei ddarparu i staff gan gynnwys hyfforddiant yn ystyried effaith Covid 19 ac effaith colled a phrofedigaeth ar y gweithlu.

## Rheoli Galw

Er eu bod nhw wedi gorfod addasu eu gwaith rhywfaint, mae asiantaethau partner y Bwrdd wedi gweithredu dull 'busnes fel arfer' drwy gydol 2021-22. Maen nhw wedi ymateb yn hyblyg i alw cynyddol ac i system iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi newid yn barhaus. Mae asiantaethau wedi darparu data cyflawniad cyson i'r Bwrdd er mwyn monitro gweithgarwch a nodi newidiadau yn y galw. Roedd data'n dangos gofynion cynyddol ym mhob maes, a chafodd waith sicrhau ansawdd ei wneud i ddeall y cynnydd yma'n well.

Daeth materion recriwtio a chadw'n amlwg, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol. Mae'r materion yma wedi cael eu monitro'n barhaus gan y Bwrdd, ac mae cynlluniau rheoli risg wedi'u rhannu. Un o'r meysydd risg mwyaf sydd wedi codi yw parhau i gynnal busnes, yn enwedig mewn perthynas ag ysbytai'n cymeradwyo derbyniadau ac yn rhyddhau cleifion. Mae gofal cartref a phreswyl wedi bod mewn perygl hefyd achos mae prinder staff wedi bod mor ddifrifol ar adegau fel ei fod yn bygwth gallu'r gwasanaethau i ddiwallu angen.

## Blaenoriaeth Strategol 2: Cryfhau Cysylltiadau Diogelu â Phartneriaethau eraill yn y Rhanbarth

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y Bwrdd a'i asiantaethau partner â'r ymdrech i alinio a chryfhau cysylltiadau ag ystod o bartneriaethau eraill ledled y rhanbarth.

Ar lefel weithredol, mae hyn wedi golygu gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i strwythur llywodraethu ategol.

Mae cysylltiadau da wedi'u cynnal gyda'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel ar lefel strategol a gweithredol. Mae trefniadau cydweithio da gyda'r Garfan Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y Panel Atal/Sianel, a'r Gwasanaethau Trwyddedu a Cham-drin Domestig sy'n rhan o'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel. Mae Grŵp Atal a Chyflawni Rhanbarthol wedi'i sefydlu ac mae asiantaethau partner wedi bod yn rhan o'r gwaith o brofi llwyfan e-ddysgu Prevent newydd, i ddiogelu unigolion sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

Mae gan asiantaethau partner y Bwrdd gynrychiolaeth hefyd ar y Bwrdd Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol Rhanbarthol, grwpiau strategol a gweithredol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, a'r grŵp llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol.

Mae'r cysylltiad rhwng strwythur Grŵp Ymateb ar Unwaith y Bwrdd, Grŵp Adolygu Hunanladdiad a'r Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad, wedi creu cysylltiad strwythurol rhwng y Bwrdd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Bu ymdrechion eleni i gryfhau'r berthynas rhwng Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ddarpariaeth iechyd o fewn Gwasanaethau Troseddau'r Ifainc.

Cafodd ymarfer cwmpasu partneriaethau lefel uchel ei gynnal yn gefn i'r agenda camfanteisio rhanbarthol. Bydd y gwaith yma'n parhau yn 2022-2023.

## Blaenoriaeth Strategol 3: Gwella'r ffordd rydyn ni'n mynd i'r afael â phryderon Diogelu'r Cyhoedd

Mae gwaith y Bwrdd Diogelu'n croesi fwyfwy i feysydd diogelu'r cyhoedd sy'n canolbwyntio'n ehangach ar ddiogelu a gwella iechyd, diogelwch a lles poblogaeth gyffredinol y rhanbarth.

Mae'n prif ffocws ni eleni wedi bod ar gamfanteisio, problem sy'n fwyfwy cyffredin yn y rhanbarth. Roedd strwythurau eisoes ar waith mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ond roedd angen ehangu'n ffocws i ystyried effaith meysydd pryder ychwanegol, gan gynnwys camfanteisio troseddol, cam-drin ar-lein, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a radicaleiddio. Mae'r cysyniad o ddiogelu cyd-destunol wedi bod yn allweddol wrth i ni ddatblygu'n strategaeth i fynd i'r afael â'r meysydd pryder yma.

Ar ddiwedd 2021-2022, roedd strategaeth ddrafft ar waith ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu pecyn cymorth ategol a llwybrau atgyfeirio. Cafodd grŵp llywio a grŵp gorchwyl a gorffen rhanbarthol ei sefydlu gyda chyfranogiad gan randdeiliaid allweddol. Bydd y strategaeth gychwynnol ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n pontio plentyndod â byd oedolion. Y bwriad yw rhoi'r strategaeth ar waith i bob oedolyn yn 2022-2023.

Roedd Grŵp Amlasiantaeth Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant Cwm Taf a Thasglu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli achosion o Gamfanteisio’n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio’n Droseddol ar Blant (CCE) yn strategol ledled y rhanbarth. Mae achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi lleihau, ac achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant wedi cynyddu. Mae'r patrwm yma wedi llywio datblygiad parhaus strategaeth a phecyn cymorth camfanteisio'r Bwrdd, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r cyfarfodydd yma'n gwybod bod angen parhau i ganolbwyntio ar achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Maen nhw'n gwybod, mewn realiti, nad yw nifer yr achosion wedi gostwng na chwaith y risg, ac os rhywbeth mae wedi tyfu'n i fod yn fygythiad mwy cudd e.e. camfanteisio ar-lein cynyddol. Mae hyn yn parhau i gael ei ddadansoddi. Cafodd data ei gasglu ar gyfer awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn 2021-2022 ac mae wedi'i grynhoi isod. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn 2022-2023.

Cyfanswm nifer yr achosion risg uchel o gamfanteisio ar blant a gafodd eu trafod – 45

Nifer y troseddwyr rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw – 15

Nifer y mannau pryder rydyn ni'n gwybod amdanyn nhw - 44

Themâu a ddaeth i'r amlwg – teithio ar drên, ar goll, cam-drin cyfoedion, cam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein, dogfennau adnabod ffug, defnyddio cyffuriau ac alcohol.

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Yn rhan o’r gwaith i weithredu'r cynllun yma, mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â byrddau diogelu eraill yng Nghymru, wedi bod yn rhoi gwybodaeth ac adnoddau i weithwyr proffesiynol, rhieni/gwarcheidwaid a phlant a phobl ifainc yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, camfanteisio’n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein.

## Ffocws Ychwanegol: Adolygiad Annibynnol Cyflym

Ym mis Hydref 2021 comisiynodd y Bwrdd Diogelu i Garfan Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru) gynnal adolygiad annibynnol cyflym  o drefniadau diogelu amlasiantaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyn yn dilyn pum marwolaeth annisgwyl plentyn, heb gysylltiad rhyngddyn nhw.

Cafodd yr adolygiad annibynnol ei gwblhau ar wahân i unrhyw adolygiadau ymarfer plant, archwiliadau, neu adolygiadau unigol mewn perthynas â'r pum achos. Er mwyn cyflawni'r adolygiad, dyma gytuno ar linellau cyfrifoldeb a chwmpas clir.

Deilliant cyffredinol yr adolygiad oedd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod trefniadau diogelu amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn effeithiol. Roedd deilliannau/buddiannau eraill yn cynnwys:

- Nodi meysydd i’w gwella y mae modd eu gweithredu ar unwaith.
- Nodi unrhyw ddysgu uniongyrchol o safbwynt lleol a/neu ranbarthol.
- Sicrwydd bod staff perthnasol wedi cael y cymorth priodol yn ystod y pandemig ac yng ngoleuni’r marwolaethau diweddar.

Cafodd adroddiad terfynol ei gyflwyno i’r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021, a oedd yn cynnwys

cyfres o argymhellion sydd bellach wedi'u monitro gan grŵp gweithredol o'r Bwrdd. Cafodd camau priodol eu cymryd i wella trefniadau diogelu amlasiantaeth.

## Ffocws Ychwanegol: Pwysau'r Gaeaf

Mae'r Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cael diweddariadau gan asiantaethau partner mewn perthynas â phwysau'r gaeaf, gyda 2021-2022 yn gyfnod arbennig o heriol. Parhaodd pryderon ynghylch COVID 19 a bu asiantaethau partner yn cydweithio'n agos i fynd i'r afael â meysydd o bryder allweddol, gan gynnwys lles staff, gwella gallu gwasanaethau, a'r galw cynyddol yn y gymuned.

# 6. Themâu Diogelu

## Gwaith Archwilio

Mae sicrhau gwelliant o ran polisi, systemau ac arferion diogelu yn swyddogaeth graidd i'r Bwrdd. Mae gwaith archwilio'n cael ei gynnal gan grwpiau gorchwyl a gorffen sydd wedi'u sefydlu gan yr is-grwpiau cyflawniad. Mae unrhyw argymhellion a ddaw yn sgil archwiliadau achos yn cael eu monitro gan y grwpiau yma i nodi sut mae arfer yn cael ei addasu i adlewyrchu unrhyw ddysgu. Mae'r themâu dysgu allweddol a ddaeth i'r amlwg ar ôl cwblhau dau archwiliad i'w gweld isod:

| GWAITH ARCHWILIO | THEMÂU A DDAETH I'R AMLWG |
|---|---|
| **Achosion lle'r oedd angen defnyddio gwasanaeth eirioli neu gynnwys aelodau o'r teulu (oedolion)** | ▪ Mae angen i bawb ystyried pwysigrwydd gwasanaethau eirioli, ac nid y cydlynydd arweiniol yn unig sy'n gyfrifol am hynny pan fydd pryder yn codi ynghylch diogelu.<br>▪ Nid cynadleddau yw'r ffordd orau o ymgysylltu bob tro. Yn aml mae'r oedolyn mewn perygl/cynrychiolydd yn fodlon cyfathrebu mewn ffyrdd gwahanol.<br>▪ Dydy cofnodion ddim bob amser yn ddigon manwl, ac mae angen cofnodi'r rhesymeg yn glir yn ogystal â'r rhesymau dros wneud/peidio â gwneud rhywbeth.<br>▪ Os yw honiad yn ymwneud â gweithiwr proffesiynol, gall fod yn anodd darparu adborth a dweud pa gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r gamdriniaeth honedig.<br>▪ Pan fydd ymchwiliad gan yr heddlu yn cymryd amser hir, bydd achos ar agor am gyfnod sylweddol gan gydlynwyr arweiniol, heb fawr o ymgysylltu â'r oedolyn sydd mewn perygl/teulu yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn aml oherwydd bod yr ymchwiliad ddim wedi dod i ben eto, neu achos mae'r achos wedi'i restru ar gyfer y llys. Unwaith eto, yn ystod y cyfnod yma, dylid darparu diweddariadau i'r oedolyn mewn perygl/cynrychiolydd/eiriolwr. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Mae angen tynnu sylw at wasanaeth eirioli wrth drafod strategaethau'n ffurfiol, a hynny ar ddechrau'r broses ac nid dim ond ar ôl trafodaeth strategaeth.<br>▪ Dylid ystyried gweithredu'r broses adborth defnyddwyr gwasanaeth / cynrychiolwyr / eiriolwyr (mae'n arfer da o ran strategaeth eirioli glir ar ddechrau'r broses ddiogelu).<br>▪ Dylid bod yn greadigol gydag eiriolaeth deuluol a phroffesiynol pan fo'r amgylchiadau'n golygu bod modd i hynny fod yn effeithiol. |
| **Archwiliad Awdurdod Lleol mewn perthynas ag Asesiadau Cymesur (plant)** | ▪ Anghytuno ynghylch cyfrifoldebau asiantaethau a phwy sy'n gyfrifol am gamau gweithredu.<br>▪ Cynrychiolaeth asiantaethau mewn cyfarfodydd strategaeth.<br>▪ Pryder ynghylch ymateb awdurdod lleol arall i achos trawsffiniol.<br>▪ Anawsterau o ran cytuno i gwblhau profion meddygol amddiffyn plant mewn achosion lle nad oes cam-drin corfforol.<br>▪ Roedd ansawdd y naratif yn yr asesiad yn amrywio. |
| **Cylch Trafod Ymarferwyr Amlasiantaeth - Plentyn N** | ▪ Yr angen i herio rhieni mewn ffordd gadarn.<br>▪ Yr angen i weld y pethau sy'n cael eu cadw'n dawel a chlywed llais y plentyn.<br>▪ Byddai gweithdrefn ar gyfer rheoli salwch ffug wedi bod o gymorth gyda'r achos yma.<br>▪ Yr angen i gynnal cyfarfodydd strategaeth a Thystysgrif Ryngwladol Amddiffyn Plant (ICPC) yn unol ag amserlenni statudol.<br>▪ Mae angen gwreiddio chwilfrydedd proffesiynol i fusnes bob dydd.<br>▪ Rhaid i gyfeiriadau llafar gael eu cynnwys mewn atgyfeiriad ysgrifenedig C1.<br>▪ Dylai cyfarfodydd proffesiynol gynnwys yr holl asiantaethau sy'n debygol o ymwneud â'r plentyn.<br>▪ Mae angen i asiantaethau iechyd adolygu'r modd maen nhw'n cofnodi gwybodaeth mewn llythyrau at asiantaethau eraill.<br>▪ Mae gorddibyniaeth ar wybodaeth o'r teulu yn lle'r gweithwyr proffesiynol dan sylw.<br>▪ Dylid rheoli Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol yn effeithiol yn unol â chanllawiau statudol . |

Roedd Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf wedi cynnal archwiliad Amddiffyn Oedolion i ddeall yr anghysondeb rhwng awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr (mewn perthynas â'r penderfyniad i gymryd camau amddiffyn pellach o ganlyniad i ymholiadau Adran 126). Nodwyd bod Gwasanaethau i Oedolion Merthyr Tudful yn mynd â llawer mwy o achosion i ymholiad Adran 126 na Rhondda Cynon Taf, a phwrpas yr archwiliad oedd gweld a oedd gwahaniaethau trothwy.

Amlygodd yr archwiliad arfer effeithiol o ddetholiad o achosion. Roedd pob un yn defnyddio ymholiad 126 i gasglu gwybodaeth gynhwysfawr o nifer o ffynonellau. Roedd cytundeb yn bennaf ynghylch ymchwiliad 126 lle doedd dim llawer o anghysondeb. Mae hynny'n gadarnhaol o gymharu ag archwiliad a gafodd ei gynnal yn flaenorol. Roedd tystiolaeth hefyd

bod barn a dymuniadau'r oedolyn mewn perygl yn cael eu hystyried yn y rhan fwyaf o achosion wrth gyrraedd deilliannau.

Roedd yr archwiliad yn awgrymu bod angen gwella ansawdd y cofnodi. Mae sylw bellach wedi'i roi i wella hynny er mwyn gwella cysondeb ledled Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. O ganlyniad i'r archwiliad trefnwyd achlysur dysgu ar gyfer y carfanau amddiffyn oedolion hefyd.

## Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant

Cyhoeddodd y Bwrdd 2 Adolygiad Ymarfer Oedolion a 2 Adolygiad Ymarfer Plant yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain ar gael ar wefan y Bwrdd trwy'r dolenni canlynol.

AYP BDCT 02 - 2018
AYO BDCTM 02 - 2019
AYP BDCTM 03 - 2019
AYO BDCTM 01 - 2021

Bu'r Bwrdd hefyd yn cydweithio â'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel a chyhoeddodd 2 Adolygiad Dynladdiad Domestig sydd hefyd i'w gweld ar wefan y Bwrdd.

ADD 03 - 2018
ADD 02 - 2018

Mae asiantaethau partner yn adrodd ar ddulliau amrywiol o rannu adolygiadau sydd wedi'u cyhoeddi a rhannu’r dysgu, gan gynnwys:

- Adroddiadau a 'Chyfarfodydd Briffio 7 Munud' yn cael eu dosbarthu i'r holl staff, rheolwyr, arweinwyr diogelu dynodedig a thimau;
- Trafodaethau mewn grwpiau cyfoedion, cyfarfodydd carfan/briffio, achlysuron dysgu gweithredol, gweithdai cyfathrebu a sesiynau gwerthuso/rheoli risg;
- Wedi'i gynnwys mewn Fframweithiau Sicrhau Ansawdd;
- Rhaeadru dysgu trwy dudalennau gwe a bwletinau diogelu corfforaethol;
- Mae'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau wedi'i ymgorffori mewn hyfforddiant perthnasol;
- Integreiddio ein blaenoriaethau o ran yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o adolygiadau yn ein Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant blynyddol.

Mae disgrifiad o'r themâu dysgu a ddeilliodd o'r adolygiadau a gyhoeddwyd eleni isod, ynghyd â disgrifiad o’r modd y gweithredodd asiantaethau partner y Bwrdd.

### BDCTM 02-2018

Amlygodd yr Adolygiad Ymarfer Plant y themau dysgu canlynol:

Amddiffyn Plant - y broses atgyfeirio
Byddai modd i ymarferwyr roi mwy o ystyriaeth i arwyddocâd hanes hir oedolyn o drais yn y cartref.

Asesiadau
Doedd gwybodaeth bwysig ddim wedi'i chofnodi ac roedd hi'n amlwg bod diffyg barn gadarn wrth wneud penderfyniadau ynghylch risg.

Rheoli Gweithiwr Cymdeithasol
Roedd y gweithiwr cymdeithasol a oedd yn gyfrifol am asesu'n ddibrofiad a doedd dim hyder ganddo i ofyn am gyngor.

Cam-drin yn y Cartref ac Amddiffyn Plant
Doedd y gwasanaeth bydwreigiaeth ddim yn dilyn ei bolisi ei hun mewn perthynas ag ymholi arferol am gam-drin domestig.

**Sut mae asiantaethau wedi ymateb i'r themau dysgu yma?**

- Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arfer gorau o ran gweithio gyda phlant a theuluoedd a phwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn amserol wedi gwella.
- Mae archwiliadau ymchwiliad rheolaidd wedi'u cynnal a'r argymhellion sy'n deillio ohonyn nhw wedi'u cyflawni. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o archwiliadau ymholiad rheolaidd sy'n cael eu cynnal gan y Fydwraig Ddiogelu Ddynodedig yn y gwasanaeth bydwreigiaeth.
- Mae hyfforddiant gofyn a gweithredu rhithwir wedi'i ddarparu i unigolion ei wneud yn annibynnol.
- Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gweld bod yr arfer o adnabod y rhai sy’n dioddef cam-drin domestig wedi gwella, ac mae penodi cydgysylltydd iechyd y Gynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth (MARAC) wedi caniatáu dysgu parhaus.
- Mae'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd wedi datblygu gweithdrefn weithredu safonol i arwain ymarferwyr wrth iddyn nhw reoli achosion hysbys o gam-drin yn y cartref.
- Enghreifftiau misol o brosesau penderfynu mewn perthynas ag atgyfeiriadau i Hwb Diogelu Amlasiantaeth a Chymorth Cynnar. Mae'r gwaith yma wedi dangos bod trothwyon yn gadarn, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon, a bod ymgynghori wedi digwydd ag asiantaethau perthnasol.
- Mae hapsamplau o asesiadau wedi dangos bod trafodaethau strategaeth yn cynnwys ymgynghoriad â'r holl asiantaethau perthnasol.
- Datblygu Offeryn i Asesu Cyflwr y Cartref.
- Adolygu'r Protocol ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n gwrthwynebu'r broses ddiogelu
- Cynnal archwiliad asiantaeth o sampl o gofnodion grŵp craidd i ystyried pa mor dda rydyn ni'n rheoli gwrthwynebiad yn y broses ddiogelu. Roedd yr archwiliad wedi canfod llawer o enghreifftiau o arfer da ond hefyd wedi cydnabod fod angen cymorth a hyfforddiant pellach ar staff. Er mwyn ymateb i'r galw yma, rydyn ni bellach yn cynnal sesiynau amlasiantaeth ar gyfer achosion lle mae plant wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant am fwy na 12 mis. Yn ogystal â hynny, bydd gweithdai'n cael eu cynnal ar gyfer carfanau a staff rheoli er mwyn gwella'n cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Camau gweithredu eraill sydd wedi deillio o archwiliadau yw sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn i ymarferwyr ystyried sut rydyn ni'n gweithio gyda gwrthwynebiad a chydymffurfiaeth ffug.

## BDCTM 02 - 2019
Amlygodd yr Adolygiad Ymarfer Oedolion y themau dysgu canlynol:

Perthynas y Teulu
Cydnabod y swydd mae aelodau’r teulu yn gwneud o ran gofalu a’r angen i gynnig asesiadau cynhalwyr o bryd i’w gilydd.

Chwilfrydedd proffesiynol ac asesu ac asesiadau risg
Pan fydd ymarferwyr yn ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeulustod, dylid arfer chwilfrydedd proffesiynol. Byddai'r chwilfrydedd yma wedi gallu arwain at fewnwelediad i'r angen a'r lefelau o gymorth a oedd yn cael ei ddarparu i'r teulu. Yn ei dro byddai hynny o bosibl wedi arwain at asesiad cynharach.

Cyfathrebu a chofnodi
Ni chafodd tystiolaeth o ddirywiad yr oedolyn ei chofnodi a doedd pyderon am ddiogelu ddim wedi cael eu huwchgyfeirio at y rheolwr llinell na'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth, hyd yn oed pan oedd tystiolaeth glir o'r pryder hwnnw.

**Sut ydy asiantaethau wedi ymateb i'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu?**

- Mae asesiadau cynhalwyr wedi newid, ac mae hynny wedi arwain ar gynnydd yn y nifer o bobl sy'n manteisio arnyn nhw;
- Mae ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o chwilfrydedd proffesiynol wedi gwella; Mae rhagor o hyfforddiant wedi'i ddarparu;
- Mae chwilfrydedd proffesiynol a phwysigrwydd dogfennaeth glir yn cael ei drafod yn helaeth trwy gydol yr hyfforddiant;
- Mae hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol wedi'i adolygu i sicrhau bod y dysgu'n cael ei gynnwys;
- Pan ddaw gwybodaeth i law bod asiantaeth yn ymwneud ag unigolyn, dylid ystyried gwneud ymholiadau gyda'r asiantaeth er mwyn cael darlun cyfannol o ddigwyddiadau.

## BDCTM 03-2019

Roedd themâu dysgu o'r Adolygiad Ymarfer Plant yn cynnwys:

Asesiadau cyn geni
Dylai gweithwyr iechyd a chymdeithasol proffesiynol geisio gwybodaeth am y tad ym mhob asesiad o fenywod beichiog a lles plentyn. Dylai gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech i gynnwys tadau ac ymgysylltu â thadau mewn asesiadau a dylen nhw geisio gwybodaeth gyfochrog pan fo risgiau'n cael eu nodi. Dylid nodi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ('ACEs') a'u heffaith bosibl ar rieni a'u gallu i fagu plant.

Cadw Cofnodion
Er bod tystiolaeth o ofal cyn-geni rheolaidd, dim ond un cofnod sydd o'r 'ymholiad arferol' ynghylch cam-drin yn y cartref ac, yn yr un modd, un cofnod o 'ymholiad arferol' gan yr ymwelydd iechyd ar ôl y geni.

Rhannu Gwybodaeth
Roedd bylchau yng nghofnodion y gwasanaeth bydwreigiaeth a'r gwasanaeth ymweliadau iechyd, a doedd y cofnodion ddim yn fanwl. Mae'n ymddangos nad oeddd ffurflen atgyfeirio Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ('PPN') a gafodd ei rannu gan yr heddlu wedi'i gynnwys yn eu cofnodion chwaith.

**Sut ydy asiantaethau wedi ymateb i'r dysgu yma?**

- Maen nhw wedi archwilio sampl o achosion sydd wedi symud ymlaen i ymholiadau Adran 47 a oedd yn dangos yr ymgynghorwyd â'r holl asiantaethau perthnasol yn ystod ymholiadau A47.

- Bu archwiliad o sampl o gofnodion grŵp craidd i ystyried lefel y chwilfrydedd proffesiynol a bod y wybodaeth a ddarparwyd gan rieni wedi'i gadarnhau. Canfu'r archwiliad fod lefel dda o chwilfrydedd proffesiynol a chadarnhad yn y rhan fwyaf o achosion, ond bod angen cymorth ar staff i'w cynnal.
- Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o ymarferwyr i ystyried sut rydyn ni'n gweithio gyda gwrthwynebiad a chydymffurfiaeth ffug.
- Mae sesiynau cyfathrebu i ymgysylltu â dynion yn y broses ddiogelu a llwybr cyn geni wedi'u cynllunio sy'n ystyried ymgysylltiad dynion.
- Ychwanegu manylion adnabod tadau/gwrywod i mewn i archwiliadau misol.
- Bydd asesiadau'n parhau i gael eu harchwilio gan gynnwys gwirio bod ymgynghoriad wedi mynd rhagddo â'r holl asiantaethau perthnasol yn ogystal â holl aelodau perthnasol y teulu.
- Mae hyfforddiant ar chwilfrydedd proffesiynol wedi'i gomisiynu a'i ddarparu mewn perthynas â chyd-destun gwasanaethau i oedolion.
- Mae pwyslais wedi'i roi ar bwysigrwydd bod yn ymwybodol o ragfarn anymwybodol mewn sesiynau hyfforddi pellach i ysgolion.
- Mae rhannu ffurflenni gwybodaeth yn electronig rhwng Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd, wedi golygu bod y ddau broffesiwn wedi rhannu gwybodaeth mewn modd amserol.

## BDCTM 01-2021

Roedd themâu dysgu o’r Adolygiad Ymarfer Oedolion yma'n cynnwys:

Ymarfer sy'n ystyriol o drawma
Byddai ymarfer o'r fath wedi bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â deall iechyd meddwl yr unigolyn a'i gamddefnydd o sylweddau amrywiol.

Cysylltu â’r teulu ehangach
Yr her i weithwyr proffesiynol yw sut i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd sydd o bosibl yn ffynonellau cymorth, ac ar yr un pryd parchu hawl yr unigolyn i gyfrinachedd.

Gweithio gyda rhywun sy’n anodd ymgysylltu ag ef
Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cysylltu ag ymgysylltu.  Roedd yn anodd ymgysylltu â'r oedolyn yma, ac roedd gweithwyr proffesiynol yn teimlo ei fod yn ymateb i argyfyngau bob tro yn hytrach na gweithio gyda chynlluniau clir a chadarnhaol.

Trais yn y cartref a rheolaeth orfodol
Mae'n llechwraidd, yn bwerus, yn bellgyrhaeddol ac yn anodd ei herio. Yn aml dydy'r sawl sy'n destun rheolaeth drwy orfodaeth ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n ddioddefwyr hyd yn oed pan fo tystiolaeth glir. Yn y sefyllfa yma disgrifiodd yr oedolyn a oedd yn ei cham-drin, a chynhaliwr oedd e.

Chwilfrydedd Proffesiynol
Dylai asiantaethau sicrhau bod eu staff yn effro i seicoleg tueddiadau diarwybod.

**Sut ydy asiantaethau wedi ymateb i'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu?**

- Bu ffocws o’r newydd ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Cafodd ymchwil ymarfer sy'n ystyriol o drawma ei gynnal i edrych ar lwybr anhwylderau personol a darpariaeth therapïau seicolegol yn y Bwrdd Iechyd.

- Mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi annog yr holl staff i fynd i hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Ers hynny rydyn ni wedi gweld gwelliant yn y gydnabyddiaeth a'r ymateb i gam-drin yn y cartref. Yn ogystal â hynny, bu enghreifftiau gwych o gydweithio i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer y cysylltiadau mae'r gwasanaethau Iechyd Meddwl yn eu gwneud i Gynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth ('MARAC'). Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o'r gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyffuriau ac Alcohol yn cael ei chydgysylltu'n effeithiol mewn cyfarfodydd MARAC.
- Mae hyfforddiant Materion Cam-drin yn y Cartref ychwanegol wedi'i ddosbarthu i staff rheng flaen.
- Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu gyda'r adran hyfforddi i atgyfnerthu'r angen i gynnwys hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma yn y rhaglen hyfforddi bresennol.

**Arfer Da – Heddlu De Cymru**
Mewn un achos roedd adolygydd allanol wedi siomi panel Cylch Trafod Ymarferwyr Amlasiantaeth, ac felly camodd Heddlu De Cymru i'r adwy i gadeirio ac ysgrifennu'r adolygiad. Nododd Heddlu De Cymru meysydd dysgu ar gyfer asiantaethau a chaniatáu i'r adolygiad gael ei gwblhau mewn modd amserol. Roedd hyn yn dangos pa mor gadarn yw'r sefydliad, yn barod i gamu i'r adwy pan fo angen.

## Cwynion

Mae Trefniadau Cwyno'r Bwrdd yn rhoi cyfle i deuluoedd wneud cwyn am y broses ac am weithdrefnau cynhadledd amddiffyn plant amlasiantaeth, a phrosesau a gweithdrefnau cyfarfodydd amddiffyn oedolion amlasiantaeth.

Yn 2021-2022, ni ddaeth unrhyw gwynion i law'r Bwrdd mewn perthynas â phrosesau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion.

Serch hynny, derbyniwyd 2 gŵyn yn ymwneud â'r broses amddiffyn plant. Doedd Panel Cwynion Annibynnol y Bwrdd ddim wedi cadarnhau'r naill gŵyn na'r llall.

# 7. Hyfforddiant Gwybodaeth a Dysgu

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr yn yr ardal a sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar waith mewn perthynas â hyfforddiant diogelu, gan ystyried themâu a dysgu sy'n deillio o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd. Mae is-grŵp hyfforddi a dysgu'r Bwrdd yn monitro'r gwaith yma.

Roedd Cwm Taf wedi parhau â hyfforddiant Diogelu yn ystod 2021-22. Cafwyd mwy o hyfforddiant dysgu ar-lein er mwyn lleihau ar effaith unrhyw gyfyngiadau. Serch hynny, roedd sefyllfa'n parhau'n heriol a chafodd cyrsiau eu canslo. Roedd cyfleoedd i gwrdd wyneb yn wyneb yn brin, hyd yn oed lle nodwyd mai hwn fyddai'r ffordd orau o ddysgu.

Yn ystod y cyfnod yma, cafodd 167 o gyrsiau eu trefnu a chafodd 20 ohonyn nhw eu canslo am resymau'n ymwneud â Covid, fodd bynnag roedd 1992 o bobl wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y cyfnod yma.

Ar wahân i staff gofal cymdeithasol mewnol, manteisiodd ystod o asiantaethau ar hyfforddiant, gan gynnwys:
Y Gwasanaeth Addysg, y Gwasanaeth Tai, y Gwasanaeth Iechyd, yr Heddlu, y Sector Gwirfoddol a rhieni maeth.

Nododd Pen-y-bont ar Ogwr yr effaith sylweddol gafodd y pandemig ar y ffordd gafodd achlysuron hyfforddi a dysgu eu cyflwyno. Roedd y newid sydyn i ddysgu digidol a dysgu o bell yn heriol ond yn llwyddiannus yn y pen draw. Rydyn ni wedi buddsoddi mewn datblygu adnoddau ar-lein a dysgu rhithwir yn yr ystafell ddosbarth. Rydyn ni hefyd wedi prynu caledwedd (iPads a gliniaduron) i'w benthyg i staff sydd ddim â gliniadur na chyfrifiadur gartref. Maen nhw hefyd yn helpu staff i ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol.

Roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal rhaglen o hyfforddiant hanfodol wyneb yn wyneb, gan gynnwys codi a chario, meddyginiaeth a rheoli heintiau. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu'n ddiogel ar gyfer y gweithiwr gofal cymdeithasol a'r person oedd yn derbyn gofal.

Mae hyfforddiant diogelu craidd Oedolion a Phlant (sengl ac amlasiantaeth) wedi mynd rhagddo ar-lein.

Ymateb ac Adfer ar ôl Covid. Er mwyn hybu cadernid a chynorthwyo'r broses adfer, rhoddodd Pen-y-bont ar Ogwr sylw arbennig i amrywiaeth o gyrsiau penodol i gynorthwyo staff yn ystod ac ar ôl Covid mewn ffordd gadarnhaol ac ymarferol. Er enghraifft, rheoli straen yn effeithiol, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o drawma dirprwyol/anaf moesol a gormodedd, a gweithdai ar golled a phrofedigaeth.

Dros y flwyddyn, cafodd 3838 o weithgareddau dysgu eu cynnal i staff, gan gynnwys hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae data'n dangos bod y ffigwr yma wedi gostwng o gymharu â chyfnodau cyn-covid. Mae'r gostyngiad yma'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau sy'n cael eu gosod ar bobl sy'n mynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dydy hi ddim yn bosibl cofnodi data ar gyfer rhai achlysuron ar-lein ac e-ddysgu allanol.

## Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Ers i'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ddechrau, mae **20,253** o aelodau o staff awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, wedi cwblhau hyfforddiant grŵp 1. Mae'r ffigurau yma wedi'u haddasu eleni i gyfrif dim ond y staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n parhau i gael eu cyflogi gan y sefydliad.
Dydy'r ffigurau lleol ddim ar gael ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru na Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan eu bod nhw'n adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu proses Cwm Taf Morgannwg o ran Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol VAWDASV yn 2021-2022:

| Cyfadran | Y NIFER SYDD WEDI CWBLHAU HYFFORDDIANT |
|---|---|
| 1 | 1457 (Data'r ALl yn unig) |

| | |
|---|---|
| 2 | 234 |
| 3 | 33 |
| 4 | 25 (aeth 93 o staff arbenigol i hyfforddiant arbenigol ychwanegol hefyd) |
| 5 | 7 |

Dylid nodi bod yr holl hyfforddiant a ddarparwyd yn lleol mewn perthynas â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol wedi'i gynnal ar-lein yn ystod y cyfnod yma.

### Grant Hyfforddiant Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd yn derbyn grant bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgareddau hyfforddi diogelu ychwanegol. Eleni, fe wnaeth y grant ein galluogi ni i gefnogi'r canlynol:

- Gweithdy camfanteisio i 53 aelod staff o asiantaethau amrywiol.
- Tair sesiwn les staff i 35 unigolyn gan Strongminds Resiliency Training Limited.
- Cynnal hyfforddiant Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth ar gyfer 4 o gadeiryddion y gynhadledd.
- Cynnal pedair sesiwn hyfforddi ar Chwilfrydedd Proffesiynol a Chydymffurfiaeth Gudd ar gyfer staff ledled y rhanbarth.
- Cynnal gweithdy lles staff wyneb yn wyneb ar gyfer staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Darparu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Hunanladdiad gan Grassroots i 6 aelod o staff.

### Achlysuron Ymarferwyr Amlasiantaeth

Yn ystod 2021-22, cynhaliwyd nifer o achlysuron amlasiantaeth i ymarferwyr.

- Trefnwyd cyfarfod adborth yn seiliedig ar ddau adolygiad ymarfer oedolion (BDCTM 1/2018 a BDCTM 1/2019), yn ymwneud ag ymosodiadau gan breswylydd oedrannus mewn lleoliadau gofal. Roedd y ddau adolygiad yn gysylltiedig â'i gilydd ac roedd y canfyddiadau a'r themâu dysgu o natur debyg. Cafodd y cyfarfod adborth yma'i gynnal ar-lein, gyda 40 o bobl yn bresennol.

- Cafodd gyfarfod adborth ei gynnal yn seiliedig ar ddau adolygiad ymarfer plant (BDCT 2/2018 a BDCTM 2/2019). Roedd y cyfarfod ar-lein, gyda 36 o bobl yn bresennol.

- Ym mis Hydref 2021, lansiodd y Bwrdd Diogelu ei Brotocol ar gyfer Rheoli Achosion o Hunanesgeulustod Difrifol,sy'n eistedd ochr yn ochr â'r Canllawiau Staff Amlasiantaeth ar gyfer Gweithio gyda Phobl sy'n Hunanesgeuluso. Cafodd pum sesiwn codi ymwybyddiaeth eu cynnal ar-lein, gyda chyfanswm o 385 o bobl yn bresennol.

- Yn ystod Wythnos Ddiogelu 2021, cynhaliwyd dau weithdy ar-lein ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Roedd y gweithdai'n tynnu sylw at elfennau o'r gwaith sy'n digwydd yn genedlaethol ac yn lleol i atal hunanladdiad a hunan-niwed. Roedden nhw hefyd yn rhoi'r cyfle i'r sawl a oedd yn bresennol i rwydweithio a thrafod cyfleoedd ar gyfer atal. Dros y ddwy sesiwn, mynychodd 55 o bobl.

## Hyfforddiant Diogelu Arall

- Cynhaliodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ddau weithdy ar gyfer y Bwrdd Diogelu. Roedd un ohonyn nhw'n ymwneud â datgelu ac wedi'i anelu at reolwyr a phobl sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, ac roedd y llall yn ymwneud â gwahardd. Roedd gweithdy yma wedi'i anelu at reolwyr ac unigolion sydd â chyfrifoldeb am wneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ynghyd â'r sawl sy'n ymwneud â phryderon proffesiynol.

- Cafodd hyfforddiant i gadeiryddion ac adolygwyr Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion eu cynnal er mwyn i gyfranogwyr ddeall y broses adolygu a theimlo'n hyderus ac yn barod i gyflawni'r dyletswyddau yma.

- Cafodd dwy sesiwn hyfforddi Rheolaeth Orfodol eu cynnal gan y garfan Adnoddau Cam-drin yn y Cartref, sy'n rhan o wasanaethau carfan Safer Merthyr Tudfil a Gwasanaethau Cam-drin yn y Cartref RhCT. Roedd 114 o bobl yn bresennol.

- Cafodd Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu lansio yn 2019 i helpu i sicrhau bod y sawl sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn deall yn llawn sut a phryd y dylen nhw gymryd camau i amddiffyn y sawl sydd mewn perygl o niwed neu esgeulustod. Cafodd modiwl e-ddysgu ar gyfer y gweithdrefnau yma ei rannu mis Tachwedd 2021.

  Mae'r modiwl yma'n cynnwys 13 adran a chwestiynau senario i helpu defnyddwyr i feithrin dealltwriaeth ymarferol o ddiogelu. Mae hefyd yn cynnwys y camau priodol i'w cymryd pan fo gweithiwr proffesiynol o'r farn bod rhywun mewn perygl.

- Cafodd dau weithdy hyfforddi ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant eu cynnal ar-lein gan Sophie Hallet. Roedd yr hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr yng Nghwm Taf Morgannwg ac roedd 78 o bobl wedi cofrestru i gymryd rhan.

- Cafodd gweithdy ei gynnal ym mis Mawrth ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Roedd y gweithdy yma i ymarferwyr wedi'i ddarparu gan y 'Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol'.

- Pan gynhaliodd Llywodraeth Cymru gynhadledd 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel – atal ac ymateb i gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru', yn ystod wythnos ddiogelu 2021, hyrwyddodd Cwm Taf Morgannwg y gynhadledd i ymarferwyr. Cofrestrodd 25 ar yr hyfforddiant yma. (Roedd niferoedd wedi cyfyngu ar gyfer y sesiwn yma).

- Yn rhan o raglen weithgareddau Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ar gyfer yr wythnos ddiogelu, cyflwynodd Stop it Now! sesiwn ar-lein i ymarferwyr ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- Yn ystod yr wythnos ddiogelu, cofrestrodd 23 o bobl ar sesiwn i ymarferwyr gan New Pathways ar 'Ymdrin â Datgeliadau o Gam-drin Plant yn Rhywiol'.

# 8. Sut rydyn ni wedi cydweithio ag eraill?

Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn rhan annatod o waith y Bwrdd. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn sawl ffordd – gydag unigolion, asiantaethau, partneriaethau a sefydliadau yng Nghwm Taf Morgannwg a thu hwnt.

## Cynllun Partneriaeth Cymunedau Diogel

Mae cynrychiolwyr o Bartneriaethau Cymunedau Diogel yn eistedd ar is-grwpiau byrddau diogelu ac mae gwaith ar y cyd ar atal hunanladdiad a cham-drin domestig yn parhau. Gweler Adran 5 am fanylion pellach.

## Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Mae cynrychiolwyr y Bwrdd wedi parhau i ymgysylltu a chymryd rhan ym Mwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, dan arweiniad Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Mae thema wedi dod i'r amlwg wrth weithredu Adran 5: Honiadau/pryderon diogelu am ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol y dylai pobl eraill gallu ymddiried ynddyn nhw (pryderon proffesiynol). Mae trafodaethau'n parhau, gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb a darparu hyfforddiant ledled Cymru.

## Llywodraeth Cymru

Mae cadeiryddion a rheolwyr busnes pob un o'r chwe bwrdd diogelu rhanbarthol ledled Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymryd camau ar y cyd ag Arweinydd Atal Hunanladdiad Llywodraeth Cymru a'r Cydlynydd Rhanbarthol i atal hunanladdiad a hunan-niwed, yn rhanbarthol a ledled Cymru.

Mae cynrychiolwyr o Gwm Taf Morgannwg wedi parhau i gyfrannu at ddatblygiad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a fydd yn cael ei roi ar waith yn ddiweddarach yn 2022.

Cyfrannodd y Bwrdd at amrywiol grwpiau, ymgynghoriadau a thrafodaethau wrth lunio'r ddeddfwriaeth newydd ynghylch dod â chosb gorfforol i ben yng Nghymru. Cafodd hyn ei weithredu ar 21 Mawrth 2022.

Ym mis Chwefror 2022, aeth aelod o garfan Diogelu ac Eirioli Llywodraeth Cymru i gyfarfod Bwrdd i gyflwyno safbwynt y garfan ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant. Mae hyn wedi llywio gwaith y Bwrdd wrth  fynd i'r afael â chamfanteisio ym mhob cwr o'r rhanbarth.

## Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB)

Aeth cynrychiolydd o BDAC rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2021-2022. Maen nhw hefyd wedi rhoi cyngor a chymorth parhaus i'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

Cafodd adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a gomisiynwyd gan y BDAC, i'r Bwrdd Diogelu ym mis Medi 2021. Cafodd pum thema allweddol eu rhannu:

- Y gallu i ddiogelu a'r ddyletswydd i adrodd
- Comisiynu ac arolygu
- Pontio
- Llais y sawl sy'n agored i niwed
- Cyfathrebu a theulu'n gynhalwyr

## Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill

Mae Cadeirydd a Rheolwr Busnes y Bwrdd wedi parhau i gwrdd â'u cadeiryddion/rheolwyr cyfatebol ledled Cymru i rannu arfer da a datrys unrhyw broblemau/rhwystrau.

Bu Rheolwr Busnes Cwm Taf Morgannwg yn cydweithio â'i gymheiriaid o ranbarth Gwent a Chaerdydd a'r Fro i ddarparu hyfforddiant Adolygu Ymarfer Oedolion a Phlant ychwanegol i gynyddu'n cronfa o gadeiryddion ac adolygwyr annibynnol.

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Bu cynrychiolwyr o Gwm Taf Morgannwg yn ymwneud â datblygu modiwl e-ddysgu Gweithdrefnau Diogelu Cymru  gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Cafodd y modiwl yma ei lansio yn ystod yr Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd 2021.

# 9. YMGYSYLLTU A CHYFRANOGI

Dylai'r plant, y bobl ifainc a'r oedolion hynny sy'n cael eu heffeithio gan arferion y Bwrdd Diogelu gael y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

Mae'r wybodaeth isod yn amlygu peth o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ystod 2021-22.

**Partneriaeth Cymunedau Diogel Pen-y-Bont ar Ogwr**

- Ymgysylltodd gweithwyr Ieuenctid Youth Matters o Ben-y-bont ar Ogwr â 690 o bobl ifainc ar y stryd mewn deuddeg o ardaloedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem.
- Roedd y garfan Ieuenctid Datgysylltiedig yn cefnogi pobl ifainc mewn achlysuron lleol gan gynnwys gŵyl Elvis.
- Bu pedwar ymgyrch amlasiantaeth ar aflonyddwch gan bobl ifainc, ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â cherbydau, tanau glaswellt a beiciau ffordd arw.
- Nod yr adolygiad o Bartneriaethau Cymunedau Diogel yw mapio a deall tirwedd y cyfarfodydd a'r partneriaethau presennol ar gyfer Partneriaethau Cymunedau Diogel Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf. Aeth gwaith rhagddo i sicrhau bod y berthynas bresennol â Bwrdd Diogelu CTM yn cael ei chryfhau.   Bydd adolygiad yn cael ei gwblhau yn ystod 2022 i 2023.

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol

Bu’r Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol yn gweithio gyda phartneriaid yn Heddlu De Cymru, Victim Focus a gwasanaethau llys i sefydlu ystafell dystiolaeth o bell. Mae'r ystafell yma'n galluogi dioddefwyr trais yn y cartref i roi tystiolaeth mewn man diogel, gyda chymorth lawn Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol y Llys (IDVA), heb orfod mynd i'r llys.



Mae'r fideo yma'n egluro rhagor.

Bu’r Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol yn helpu i lunio a chyflwyno’r ymgyrch ‘Snip it in the Bud’. Ymgyrch ledled Cwm Taf Morgannwg lle mae trinwyr gwallt a barbwyr yn cael cymorth i adnabod unrhyw arwyddion rhybudd posibl, a phe bai cwsmeriaid yn datgelu unrhyw beth wrthyn nhw, eu  bod nhw'n cael cymorth i gyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau lleol.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Gwasanaethau i Blant

Mae Gwasanaethau i Blant Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT wedi cyflawni'r canlynol:

- Cyflwyno Cynadledda ar gyfer Grwpiau Teulu.
- Datblygu gwefan 2 Ochr(2Sides) ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal (PDG). Mae'r wefan wedi llwyddo â chymorth technegol gan Wicid TV – y llwyfan gwybodaeth, dysgu a chymorth rhyngweithiol sydd wedi'i lunio a'i gynhyrchu gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid ar gyfer pobl ifainc 11+ oed yn RhCT.
- Diwygio'r ffurflen ymgynghori PDG ar gyfer Plant a Phobl Ifainc (PPhI) a elwir bellach yn Fy Llais - Fy Adolygiad (My Voice - My Review).  Y cynnig arfaethedig yw cael adborth gan blant a phobl ifainc ynglŷn â pha mor hygyrch yw'r wefan a pha mor berthnasol ydy hi. Bydd yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio wedyn i lywio'r ddogfen wrth symud ymlaen. Mae Rheolwr Carfan y Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd wedi cyfarfod â rhieni maeth i'w hannog nhw i roi cymorth gweithredol i blant a phobl ifainc i ddefnyddio'r ddogfen yma er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed ym mhob adolygiad. Dylai'r ddogfen fod yn fyw yn fuan.
- Mae Strategaeth Gyfranogi **,** sydd wedi’i wreiddio yn hawliau plant, wedi'i llunio ac yn:
    - Gwrando ar brofiad y cyhoedd o'n gwasanaethau ac yn defnyddio'r wybodaeth yma'n systematig i ysgogi gwelliant;
    - Blaenoriaethu hawliau pobl;
    - Ail-gysylltu â Voices from Care;
    - Gwirio prosesau eiriolaeth i rieni ;
    - Gosod patrwm ar gyfer cynnwys pobl sydd â phrofiad o'n gwasanaethau i'w datblygu a'u gwerthuso.
- Mae ysgol yn RhCT wedi cysylltu â'r garfan Ddiogelu gan fod grŵp o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect ysgol sy'n gysylltiedig â diogelwch yn y

gymuned. Bydd gwaith pellach gyda'r disgyblion yma'n trafod y rhan sydd ganddyn nhw i'w chwarae yn natblygiad y strategaeth gamfanteisio.

**Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Cynhaliodd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru nifer o sesiynau ar-lein, gyda chyflwyniadau a chyfle i ofyn cwestiynau gyda phanel. Roedd y sesiynau'n cynnwys:

- Sesiwn iechyd meddwl a lles i'r cyhoedd, a oedd yn cynnwys cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth ardderchog yn y gymuned ac ar-lein, heb orfod cael atgyfeiriad gan feddyg teulu. Roedd y Panel yn cynnwys y Garfan Iechyd Meddwl a Charfan y Gymuned a Phrofiad y Claf.

- Iechyd a Diogelwch, parodrwydd cynhalwyr i wneud eu hunain yn hysbys a chadw eu hunain yn ddiogel yn gorfforol ac o ran lles, cyfeirio at wasanaethau.

- Sesiwn ymwybyddiaeth gwefan 111 i bobl hŷn, a oedd yn cynnwys arddangosiad byw o wahanol agweddau ar wefan 111 GIG Cymru. Nod y sesiwn oedd helpu pobl i wybod sut i chwilio am gymorth a gwybodaeth, sut i fanteisio ar yr offeryn 'Recite Me' a gwirio symptomau ar-lein.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Datblygodd Camau Babi, llwybr cyn-geni'r awdurdod lleol, gysylltiadau cryfach â'r gwasanaeth iechyd i leihau risgiau diogelu i fabanod newydd-anedig. Mae enghreifftiau o adborth defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys:

- “Roedd yn bleser gweithio gyda hi a heb ei chymorth, dydw i ddim yn gwybod a fyddai'r plentyn yn dal yn fy ngofal i”.
- “Roeddwn i'n teimlo bod rhywun yn gwrando arna' i a fy mod i'n cael cymorth i wneud y newidiadau sydd eu hangen i wella bywyd teuluol”.
- “Gweithwyr gwych a oedd hefyd yn gwrando ar yr hyn a ddywedais”.
- “Mae'r gwasanaeth yma wedi fy achub i mewn cyfnod mor anodd”.

**Astudiaeth Achos - Cynhadledd Amddiffyn Plant BDCTM - Peilot Eiriolaeth i Rieni.**
Gyda chymorth cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, comisiynodd Gwasanaethau i Blant BDCTM gynllun peilot eiriolaeth i rieni. Roedd hyn yn cynnwys cynnig eiriolaeth i rieni yn seiliedig ar broblemau, ynghyd â chynnig cyffredinol o eiriolaeth i bob rhiant sy'n mynd i'r Cynadleddau Amddiffyn Plant.

Roedd y cyfnod peilot cychwynnol yn ystyried grŵp rheoli o rieni nad oedd yn defnyddio eiriolwr, a charfan a oedd yn defnyddio eiriolwr, ac yn dadansoddi eu profiadau o fynd i Gynhadledd Amddiffyn Plant. Roedd y fethodoleg werthuso'n cynnwys:

- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol
- Dadansoddi cofnodion o gynadleddau lle'r oedd rhieni a gafodd gynnig eiriolwr yn bresennol, a'r rhai na chafodd gynnig eiriolwr yn bresennol, o fewn yr un amserlen.

Roedd yr adborth gan bawb a gymerodd ran yn y prosiect yn gadarnhaol, gan gynnwys rhieni/gwarcheidwaid, swyddogion adolygu annibynnol a gweithwyr cymdeithasol. Dyma'r canfyddiadau:

> Dywedodd 80% o rieni fod y gwasanaeth yn 'ddefnyddiol' Dywedodd 80% o rieni fod y gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth i'w sefyllfa Dywedodd 50% o rieni eu bod nhw'n gwybod mwy am eu hawliau

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y rhieni hynny oedd ag eiriolwyr yn cymryd rhan fwy ystyrlon yn y cyfarfod ac yn dangos gwell dealltwriaeth o'r pryderon a arweiniodd at y cyfarfod cynhadledd.

Roedd adborth a dadansoddiad o gofnodion y cynadleddau yn dangos yn glir bod cael eiriolwr wedi galluogi rhieni i ymgysylltu â phroses y gynhadledd ac i deimlo'n fwy hyderus wrth rannu eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae hi hefyd yn ymddangos fod eu dealltwriaeth o'r broses wedi gwella.

Yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol, mae cyllid pellach ar gael am 12 mis er mwyn darparu eiriolwyr i rieni. Bydd y prosiect yn darparu'r cynnig i gael bob rhiant a phawb sydd â chyfrifoldeb rhiant i gael eiriolwr mewn Cynadleddau Cychwynnol a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant.

## Rhannu Gwybodaeth

Yn rhan o ddatblygu diwylliant dysgu cadarnhaol, mae'r Bwrdd wedi rhannu enghreifftiau o arfer gorau a dysgu yn y gweithlu trwy Gylchoedd Trafod Ymarferwyr Amlasiantaeth (gweler tudalen 23). Mae'r Bwrdd hefyd wedi rhannu gwybodaeth yn yr e-fwletin, ac wedi diweddaru'r wefan gydag adroddiadau a deilliannau dysgu o Adolygiadau ac Archwiliadau Ymarfer Oedolion/Plant.

Cafodd ddau fwletin eu cyhoeddi yn 2021-22 a'u dosbarthu i'r Bwrdd a'i bartneriaid. Roedd y wybodaeth yn cynnwys:

- Dod â chosbi corfforol i ben yng Nghymru
- Cydweithio i atal cam-drin plant
- Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan
- Hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol
- Polisïau a phrotocolau sydd wedi'u cyhoeddi
- Adolygiadau ymarfer sydd wedi'u cyhoeddi
- Atal hunanladdiad

Mae modd gweld yr e-fwletinau trwy ddewis y dolenni isod:

- Gwanwyn 2021
- Gwanwyn 2022

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy gydol y flwyddyn, rhannwyd gwybodaeth am ystod o faterion diogelu ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar dudalen Facebook y Bwrdd ac ar ei gyfrif Twitter.

Cafodd negeseuon eu rhannu a'u haildrydar gan sefydliadau eraill hefyd, gan ddarparu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau cymorth amrywiol a sut i'w cyrchu.


Roedd y Bwrdd Diogelu wedi rhoi cymorth i nifer o ddiwrnodau i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys:

- Wythnos Ymwybyddiaeth o Stelcio
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Wythnos y Cynhalwyr
- Diwrnod Cam-drin Pobl Hŷn y Byd
- Wythnos Iechyd Dynion

## Gwefan

Cafodd gwybodaeth am ystod o faterion diogelu ei lanlwytho i'r wefan drwy gydol y flwyddyn.

Cafodd adran ar wefan y Bwrdd Diogelu ei chreu i gynnwys gwybodaeth am faterion amrywiol yn ymwneud â diogelu. Cafodd wybodaeth o'r adran yma, sef Diweddariadau Diogelu, ei hanfon yn rheolaidd at aelodau'r Bwrdd Diogelu a'i bartneriaid.




## Ymgyrchoedd

Mae'r Bwrdd Diogelu a'i bartneriaid wedi bod yn gefn i'r ymgyrchoedd canlynol drwy rannu'r wybodaeth a'r adnoddau yn fewnol, ar wefannau, sianeli cyfryngau cymdeithasol ac mewn achlysuron wyneb yn wyneb.

- Dod â chosbi corfforol i ben yng Nghymru
- Diwrnod Rhuban Gwyn
- Byw Heb Ofn
- Mae Casineb yn Brifo Cymru
- Cam-drin o fewn y Teulu
- Dim ond? Dim esgus

# Wythnos Ddiogelu

Cafodd Wythnos Ddiogelu 2021 ei chynnal rhwng 15 a 19 Tachwedd. Thema Cwm Taf Morgannwg oedd 'Diogelu'n Cymunedau'. Rhoddodd hyn yr hyblygrwydd i'r Bwrdd Diogelu, ei bartneriaid ac asiantaethau'r rhanbarth, i drefnu achlysuron a gweithgareddau ar faterion

diogelu sy’n berthnasol i’r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, defnyddwyr eu gwasanaeth a’u profiadau yn ystod pandemig Covid-19.

Roedd y rhaglen ddigwyddiadau'n cynnwys hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth ar ystod o faterion diogelu, megis camfanteisio’n rhywiol ar blant, iechyd meddwl, atal hunanladdiad a hunan-niwed, adolygiadau ymarfer oedolion a phlant, cam-drin yn y cartref a chamfanteisio’n droseddol ar blant. Roedd y rhain wedi'u targedu at y cyhoedd, pobl ifainc, rhieni/gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol.

## Diwrnod Cenedlaethol i Godi Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio 2022

Cafodd y Diwrnod Cenedlaethol i Godi Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio ar Blant 2022 ei gynnal ar 18 Mawrth. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth i drafod ffyrdd i hyrwyddo'r diwrnod yma yng Nghwm Taf Morgannwg.

Penderfynodd y grŵp rannu adnoddau ar-lein, megis negeseuon cyfryngau cymdeithasol, graffeg a phosteri, ynghyd â chynhyrchu posteri copi caled a thaflenni ar ddiogelu a chamfanteisio. Roedd y rhain oll yn darparu gwybodaeth am wahanol fathau o gamfanteisio, sut i adnabod yr arwyddion bod rhywun yn destun camfanteisio, a sut i ymateb a rhoi gwybod am achosion posibl o gamfanteisio.

Cafodd nwyddau Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg megis padiau ysgrifennu, beiros a thocynnau troli hefyd eu dosbarthu i bartneriaid yn ystod gweithgareddau hyrwyddo, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o’r Bwrdd ac i ddarparu manylion ar ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Dyma rai o'r gweithgareddau niferus a aeth yn eu blaen i godi ymwybyddiaeth o'r Diwrnod Cenedlaethol i Godi Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio:

- Ymwelodd Carfan Iechyd a Lles Pen-y-bont ar Ogwr ag ysgolion uwchradd yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Mawrth. Roedd ganddyn nhw fwrdd gwybodaeth yn ystod amser cinio i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio rhywiol a throseddol ymhlith myfyrwyr.
- Ar 18 Mawrth, ar gais yr Uned Cyfeirio Disgyblion, roedd y Garfan Iechyd a Lles yn bresennol drwy'r dydd, gan gysylltu ag achlysuron roedd yr Uned eisoes wedi'u trefnu.
- Gan ddefnyddio'r gwasanaeth allgymorth fel ffordd effeithiol o gyfleu negeseuon, dyma'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf yn cynnal ymgyrch ar gyfer pobl ifainc. Nod yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth am gamfanteisio, yn enwedig i bobl ifainc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ('NEET').

- Cafodd diwrnod ei gynnal i ymarferwyr camfanteisio ar blant ar 18 Mawrth ar Microsoft Teams. Cafodd yr achlysur ei arwain gan aelodau o grŵp amlasiantaethol ar gyfer camfanteisio ar blant Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a Gwasanaeth

Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol Barnardos.

- Cymerodd sawl partner, gan gynnwys Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf, Barnardos, Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ran mewn achlysur yng Ngholeg y Cymoedd (Campws Nantgarw), i siarad â myfyrwyr ac i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio.




Myfyrwyr yn ymgysylltu â phartneriaid y Bwrdd Diogelu ar gyfer y Diwrnod Cenedlaethol i Godi Ymwybyddiaeth am Gamfanteisio.

# 10.Cyfraniadau Aelodau'r Bwrdd

**Mae holl bartneriaid y Bwrdd Diogelu â chyfrifoldeb i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol. Mae Cylch Gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir, yn ogystal â phroffiliau rôl ar gyfer aelodau'r Bwrdd.**

Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu effeithiolrwydd mesurau y mae partneriaid a chyrff eraill wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â diogelu, a hynny trwy sicrhau ansawdd, archwiliadau a rheoli cyflawniad. Mae cynrychiolwyr ar gyfer yr holl asiantaethau partner statudol gofynnol yng Nghwm Taf ar y Bwrdd, y Pwyllgorau Gweithredol a'r Is-grwpiau. Mae presenoldeb yn cael ei fonitro yn y cyfarfodydd yma.

Mae cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Cydbwyllgor Gweithredol yn y tabl isod:

| ASIANTAETH | PRESENOLDEB YNG NGHYFARFODYDD Y BWRDD (4 cyfarfod) | PRESENOLDEB AR Y PWYLLGOR GWEITHREDOL (4 cyfarfod) |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr (RhCT)**<br>**Cyfarwyddwr (MT)**<br>**Cyfarwyddwr (CBS Pen-y-bont ar Ogwr)** | 4<br>3<br>4 | Dd/B |
| **Gwasanaethau i Blant RhCT** | 4 | 2 |
| **Gwasanaethau i Oedolion MT** | 4 | 4 |
| **Diogelwch y Cyhoedd RhCT** | 2 | 1 |
| **Gwasanaeth Addysg RhCT** | 4 | 3 |
| **Gwasanaethau i Blant MT** | 4 | 4 |
| **Gwasanaethau i Oedolion MT** | 3 | 4 |
| **Diogelwch y Cyhoedd MT** | 0 | 0 |
| **Gwasanaeth Addysg MT** | 1 | 0 |
| **Gwasanaethau i Blant Pen-y-bont ar Ogwr** | 2 | 4 |
| **Gwasanaethau i Oedolion Pen-y-bont ar Ogwr** | 2 | 4 |
| **Diogelwch y Cyhoedd Pen-y-bont ar Ogwr** | 0 | 0 |
| **Gwasanaeth Addysg Pen-y-bont ar Ogwr** | 2 | 1 |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** | 4 | 4 |
| **Heddlu De Cymru** | 4 | 4 |
| **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | 3 | 4 |
| **Carchar y Parc** | 3 | 2 |

Mae asiantaethau partner hefyd yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd sy'n dangos eu cyfraniad a'u hymrwymiad i ddiogelu. Mae'r wybodaeth yma wedi'i grynhoi isod:

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT)

Cynrychiolir CBSMT ar y Bwrdd Diogelu gan gydweithwyr o Wasanaethau i Blant, Gwasanaethau i Oedolion ac Addysg. Mae CBSMT hefyd yn cael ei gynrychioli ar holl is-grwpiau'r Bwrdd a grwpiau gorchwyl a gorffen amrywiol sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.

Mae CBSMT hefyd yn cyfrannu at waith y Bwrdd yn y ffyrdd canlynol:

- Cyd-gadeirio'r Bwrdd Diogelu
- Cadeirio'r Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau
- Arwain a chyd-gynhyrchu canllawiau rhanbarthol, e.e. Canllawiau Grŵp Craidd
- Is-Gadeirydd y Grŵp Sicrhau Ansawdd a Chyflawniad i Oedolion
- Cadeirio ac Adolygu Adolygiadau Ymarfer a Chylchoedd Trafod Ymarferwyr Amlasiantaethol
- Yn gefn i ddatblygiad y Grŵp Adolygu Hunanladdiad
- Cyfrannu at Grwpiau Ymateb Uniongyrchol a chyfarfodydd Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDiC)

Mae CBSMT yn darparu data cyflawniad ac yn cyfrannu at waith archwilio a gweithgaredd is-grŵp yn ôl yr angen. Mae CBSMT hefyd yn cyfrannu at hwyluso hyfforddiant diogelu ar draws Cwm Taf Morgannwg.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr yw'r uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am ddiogelu corfforaethol. Mae'r Cyfarwyddwr a phenaethiaid y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yn eistedd ar y Bwrdd diogelu. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithredu'n is-gadeirydd.
- Mae'r Cyfarwyddwr a swyddogion y Cyngor yn cymryd rhan weithredol ar is-grwpiau'r Bwrdd ac mae ganddyn nhw gyfrifoldebau cadeirio.
- Mae gan y Cyngor uwch reolwr dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae cynrychiolwyr o'r Gyfarwyddiaeth wedi bod i weithdai, diwrnodau cynllunio a chyfarfodydd carfan sydd wedi cyfrannu at y broses o osod camau gweithredu i fodloni blaenoriaethau'r Bwrdd.
- Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio'r protocol Pryderon yn ymwneud ag Arferion Diogelu Rhyngasiantaethol (CRISP) i uwchgyfeirio materion diogelu.
- Caiff data cyflawniad diogelu ei rannu gyda'r Grwpiau Sicrhau Ansawdd a Chyflawniad a bydd craffu pellach yn digwydd yng nghyfarfod y Bwrdd Diogelu trwy adroddiadau amlygu.
- Mae unrhyw weithgarwch diogelu annibynnol hefyd yn cael ei rannu â'r Bwrdd Diogelu lle bo hynny'n briodol ac yn gymesur.
- Mae Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i chynrychioli'n dda ym mhob cyfarfod y Bwrdd Diogelu rhanbarthol yn ystod 2021-2022. Cafodd adolygiad o gynrychiolaeth ei gynnal i sicrhau bod yr aelodau cywir o staff yn bresennol yn y cyfarfodydd perthnasol. Mae hyn wedi bod yn gymorth wrth sicrhau lefel cyson o bresenoldeb a bod gwybodaeth wedi'i rhannu o'r cyfarfodydd hynny.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi darparu gwybodaeth yn ymwneud â grwpiau ymateb uniongyrchol yn ôl y gofyn. Mae hefyd wedi cyfrannu'n llawn at gyfarfodydd o ran

data a gwybodaeth. Bu adegau o oedi gyda'r elfen yma,  ond mae gwelliant wedi bod o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyfrannu'n llawn mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, achlysuron dysgu, ac wedi darparu aelodau panel lle bo angen.

**Astudiaeth Achos - Addysg Pen-y-bont ar Ogwr**

Yn 2021-2022, dyma'r Gyfadran Addysg yn creu swydd newydd (Rheolwr Grŵp) i sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu'n cael eu cyflawni’n effeithiol ac yn gyson mewn ysgolion ac ar draws y Gyfadran.

Mae gan ddeiliad y swydd yma gyfrifoldeb allweddol i sicrhau bod pob ysgol a gwasanaeth yn cael gwybod yn llawn am eu dyletswyddau diogelu ac yn eu hyrwyddo. Yn rhan o'r swydd newydd, cynhaliwyd archwiliadau diogelu o bob un o’r 60 o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd ysgolion yn parhau i adolygu eu harchwiliadau bob tymor a monitro eu cynnydd eu hunain yn erbyn yr offeryn archwilio.

Yng nghanfyddiadau’r archwiliadau cychwynnol, graddiodd yr ysgolion eu hunain fel a ganlyn:

- 52 ysgol - gwyrdd
- 3 ysgol - oren
- 1 ysgol - coch

Roedd cyfeiriad da at asiantaethau partner yn rhoi cymorth da i ysgolion mewn perthynas â materion diogelu, ac roedd tystiolaeth dda o ysgolion yn cynnal arolygon ac ymgynghoriadau gyda disgyblion neu eu rhieni. Mae'r pethau yma wedi cynorthwyo ysgolion i ystyried y math o gymorth diogelu a lles sydd ei angen. Roedd tystiolaeth gref bod ystod eang o gymorth ar gael gan ysgolion i ddisgyblion.

Ymhlith y meysydd i’w gwella roedd yr angen i sicrhau dull diogelu mwy cadarn ac ystyried pa mor effeithiol mae ysgolion yn cyfathrebu eu polisïau a’u gweithdrefnau diogelu i staff, cyrff llywodraethu, plant, rhieni a gwarcheidwaid. Mae archwiliadau'n dangos bod angen i gyrff llywodraethu fod yn gliriach ynghylch eu rolau a’u cyfrifoldebau sy’n gysylltiedig â diogelu yn eu hysgolion. Amlygodd mwyafrif yr ysgolion fod hyfforddiant i lywodraethwyr yn fwlch y mae angen mynd i’r afael ag ef.

Dim ond un ysgol oedd yn goch, ac roedd hynny oherwydd arweinyddiaeth yr ysgol, yn enwedig o ran gweithredu’r broses ddiogelu, gweithdrefnau a rheoli ymddygiad. Mae’r ysgol yma'n wedi bod yn derbyn llawer o gymorth gan yr awdurdod lleol ac mae hynny'n parhau. Mae gwelliannau sylweddol yn cael eu nodi ers yr ymyrraeth.

Bydd yr awdurdod lleol yn adolygu archwiliad pob ysgol yn flynyddol yn rhan o'i swydd yn “gyfaill beirniadol”, gan ddarparu her, cwestiynau ac ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymateb ysgolion. Bydd canfyddiadau'r archwiliadau'n cael eu rhannu gydag ysgolion i ystyried sut maen nhw'n ymateb wrth baratoi ar gyfer eu hadolygiad blynyddol nesaf.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT)

Mae Gwasanaethau i Oedolion Gwasanaethau i Blant RhCT wedi cynnal eu hymrwymiad i is-grwpiau perthnasol y Bwrdd Diogelu. Mae eu presenoldeb nhw wedi bod yn rhagorol mewn cyfarfodydd, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad sylweddol a chyson at waith y Bwrdd, gan gynnwys darparu aelodau i'r Panel, Adolygwyr a Chadeiryddion ar gyfer Adolygiadau Ymarfer a Chylchoedd Trafod i Ymarferwyr Amlasiantaethol (MAPFs)

Yn 2021-2022, mae CBSRhCT wedi:

- Cadeirio'r cydbwyllgor gweithredol, yr is-grwpiau ansawdd a chyflawniad i oedolion ac i blant ynghyd â'r panel partneriaeth hunan-esgeuluso RhCT;
- Is-gadeirio is-grŵp ansawdd a chyflawniad Hwb Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu Cwm Taf (MASH), grŵp amlasiantaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant, a'r is-grŵp ymgysylltu, cyfranogi a chyfathrebu;
- Bod yn aelod o holl is-grwpiau eraill y Bwrdd ac wedi cyfrannu at y grwpiau gorchwyl a gorffen yn ymwneud â chamfanteisio a'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR);
- Mynd i Grwpiau Ymateb Uniongyrchol, a chyfrannu atyn nhw;
- Cadeirio un Adolygiad Ymarfer Oedolion newydd, gweithredu'n adolygydd ar gyfer un Adolygiad Ymarfer Plant, darparu aelodau'r panel ar gyfer 4 Adolygiad Ymarfer Oedolion a chadeirio 2 Gylch Trafod i Ymarferwyr Amlasiantaethol (MAPF);
- Cynyddu nifer ein staff sydd â diddordeb mewn hyfforddiant adolygu ymarfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal, mae Gwasanaethau i Oedolion RhCT wedi:

- Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i lunio a gweithredu dogfen reoli achosion newydd yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.
- Gwneud cyfraniad sylweddol at brosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl Llywodraeth Cymru.
- Gwneud cyfraniad sylweddol i ffrydiau gwaith Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Llywodraeth Cymru, ac wedi arwain prosiect rhanbarthol i baratoi ar gyfer eu gweithredu.
- Parhau i chwarae rhan arweiniol gyda phartneriaid asiantaeth wrth ddarparu hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 3 yn ystod 2021-22 a chynnal achlysuron adborth ar ran y Bwrdd Diogelu.

## Heddlu De Cymru

Mae Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn bartner sy'n cyfrannu'n effeithiol i'r Bwrdd a'i is-fyrddau. Mae'r Ditectif Prif Arolygydd yn benodol wedi bod yn allweddol wrth lunio ymateb y Bwrdd i gyfnod adfer y pandemig. Mae hefyd wedi bod yn allweddol wrth lunio'r ymateb amlasiantaeth yn sgil nifer o farwolaethau plant proffil uchel a fydd yn ysgogi gwelliannau cyflym i ddarpariaeth gwasanaeth.

Mae Heddlu De Cymru wedi rhoi cymorth sylweddol i brosesau adolygu ymarfer y Bwrdd yn ystod y cyfnod yma trwy gytuno i gadeirio nifer o baneli. Mae hynny wedi galluogi'r adolygiadau i gael eu cwblhau mewn modd amserol.

Mae gan Heddlu De Cymru gynrychiolwyr ar y Bwrdd a'i is-grwpiau ac mae wedi cyfrannu at ddatblygiad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a'r effaith bosibl ar waith y Bwrdd.

Mae Heddlu De Cymru wedi bod yn gyfrannwr allweddol i raglen newid yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth, gan rannu gwybodaeth i ddatblygu llwyfan rhannu gwybodaeth newydd trwy Microsoft Teams fel ateb mwy cynaliadwy.

## Carchar Parc Ei Fawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifainc

- Presenoldeb rheolaidd ar Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ac is-grwpiau perthnasol
- Roedd yr Arweinydd Diogelu wedi mynd i'r Hyfforddiant Adolygu Ymarfer Oedolion a Phlant.
- Mae wedi cymryd rhan mewn Archwiliad Diogelu Amlasiantaethol.
- Roedd y Garfan Ddiogelu'n cydnabod yr angen i adolygu hyfforddiant diogelu i weithwyr. Mae hyfforddiant diogelu lleol wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno. Mae'r holl weithwyr wedi'u hannog i gwblhau'r hyfforddiant diogelu ar wefan diogelu CTM.

## Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi:

- Darparu adolygwyr ac aelodau panel ar gyfer Adolygiadau Ymarfer a Chylchoedd Trafod i Ymarferwyr Amlasiantaethol.
- Cadeirio'r Grŵp Adolygu Hunanladdiad a'r is-grŵp Sicrhau Ansawdd a Chyflawniad y Hwb Diogelu Amlasiantaeth, gan ddarparu adroddiadau uwch perthnasol.
- Mynychu a chymryd rhan ym mhob un o gyfarfodydd ac is-grwpiau BDCTM.
- Darparu aelodau grwpiau gorchwyl a gorffen i lunio polisïau, gwella arfer a gwella fframwaith cyflawniad.
- Helpu llunio cynlluniau gweithredu a gwaith archwilio.
- Hwyluso achlysuron dysgu, sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu'n eang o Adolygiadau Ymarfer ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig ledled y Bwrdd Iechyd Prifysgol.
- Cymryd rhan weithredol yn ystod yr wythnos ddiogelu i hyrwyddo blaenoriaethau'r Bwrdd.
- Mynd i grwpiau Hyfforddi a Dysgu i sicrhau cysondeb mewn pecynnau hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant ym mhob cwr o'r rhanbarth
- Mynd i sesiynau llunio strategaeth camfanteisio ranbarthol a chymryd rhan ynddyn nhw.
- Sicrhau bod blaenoriaethau'r bwrdd yn ganolog i gynlluniau gwella o fewn y Bwrdd Iechyd Prifysgol.

# 11. Rheoli ein Hadnoddau

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn defnyddio fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol asiantaethau partner statudol.

Mae'n cael ei chyfrifo fel a ganlyn:

| Asiantaeth | Cyfraniad (%) | Cyfraniad (%) |
|---|---|---|
| CBS Rhondda Cynon Taf | 60% | 55% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | | 32% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | | 13% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | | 25% |
| Heddlu De Cymru | | 10% |
| Y Gwasanaeth Prawf | | 5% |
| **Cyfanswm** | | 100% |

Yn 2021-2022, roedd y gwariant fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Staff** | £277,015 |
| **Adeiladau/Safleoedd** | £7,440 |
| **Arall** | £6,381 |

Dydy costau hyfforddi ddim wedi'u cynnwys gan eu bod y tu allan i gyllideb y Bwrdd.

# 12. Gwaith arall y Bwrdd

## Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO)

Mae Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi bod ar gael ers gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn 2016, ond dydyn nhw ddim wedi cael eu defnyddio'n aml.

Yn ystod y flwyddyn, CBS Rhondda Cynon Taf oedd y trydydd awdurdod lleol yng Nghymru i ddefnyddio’r gorchymyn er mwyn gallu cael mynediad at oedolyn roedd yn amau ei fod mewn perygl, lle nad oedd fyrdd eraill yn caniatáu iddo wneud hynny.

Yn yr achos yma, roedd y meddyg teulu wedi rhoi gwybod i'r garfan Diogelu Oedolion fod yr oedolyn ifanc yma ddim wedi cael unrhyw driniaeth ar gyfer cyflyrau iechyd sylfaenol. Doedd ymdrechion y meddyg teulu ddim yn llwyddiannus, a chafodd weithiwr cymdeithasol ei benodi i'r achos i wneud ymholiadau A126, ond methodd ei ymdrechion i gysylltu. Cadarnhaodd gwiriad lles yr heddlu fod y person yn ddiogel a chynhaliwyd cyfarfod strategaeth. Yn y cyfarfod cytunwyd y byddai'r swyddog awdurdodedig yn gwneud cais i'r llys am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Roedd y llys wedi cymeradwyo'r cais a defnyddiodd y swyddog awdurdodedig y gorchymun yn llwyddiannus. Yn sgil hynny, fel welodd y y swyddog yr oedolyn ifanc ar ddau achlysur. Doedd dim tystiolaeth o esgeulustod

neu gamdriniaeth sylweddol, ar ôl pwyso a mesur, y tebygolrwydd oedd na fyddai gan yr oedolyn ifanc y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau cymhleth am ei anghenion gofal iechyd.

## Canllawiau a Chyngor gan Weinidogion Cymru a/neu'r Bwrdd Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol ac yn ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth. Sefydlwyd perthynas dda gydag aelod NISB y rhanbarth, a chafodd cymorth ei roi ar sawl achlysur wrth geisio comisiynu adolygwyr annibynnol neu ddylanwadu ar brosesau a chanllawiau cenedlaethol.

## Ceisiadau am wybodaeth Adran 137

Mae Adran 137 (1) o'r Ddeddf yn rhoi'r grym i Fwrdd Diogelu ofyn am wybodaeth benodol gan berson neu gorff cymwys ar yr amod mai nod y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.

Yn 2021 -2022, doedd y Bwrdd ddim wedi defnyddio ei bwerau o dan Adran 137 o'r Ddeddf i gael mynediad at wybodaeth.

# Oes gyda chi bryderon am rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu'n wynebu risg o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Mae pob galwad sy'n mynegi pryder am blentyn yn cael ei thrin o ddifrif.  Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

**Yn Rhondda Cynon Taf:** 01443 425006
**Ym Merthyr Tudful:** 01685 725000
**Ym Mhen-y-bont ar Ogwr:** 01656 642320

**Oriau agor:**
Llun–Iau: 8.30am–5.00pm
Gwener: 8.30am–4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu'n wynebu risg o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei thrin o ddifrif.  Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

**Yn Rhondda Cynon Taf:** 01443 425003
**Ym Merthyr Tudful:** 01685 725000
**Ym Mhen-y-bont ar Ogwr**: 01656 642477

**Oriau agor:**
Llun–Iau: 8.30am–5.00pm
Gwener: 8.30am–4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu Wasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch:

**Carfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg** ar **01443 743665**.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes problem neu gwestiwn gyda chi,
ffoniwch 101, sef rhif 24 awr yr heddlu ar gyfer sefyllfaoedd sydd ddim yn argyfwng. ***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai difrifol.***

# ATODIAD 1 - AELODAU'R BWRDD

| ENW | TEITL | ASIANTAETH: |
|---|---|---|
| Paul Mee (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lisa Curtis-Jones (Is-Gadeirydd) | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Claire Marchant (Is-Gadeirydd) | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cheryl Emery | Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Thai | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jackie Neale | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Neil Elliot | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Julie Clark | Pennaeth Diogelu a Chymorth (Plant) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Gaynor Davies | Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Annabel Lloyd | Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cara Miles | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gofal yn y Gymuned a Phlant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jon Eyre | Blaen Reolwr, Diogelu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Alyn Owen | Prif Swyddog, Adfywio Cymunedol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Susan Walker | Prif Swyddog, Addysg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Taryn Stephens | Pennaeth y Gwasanaethau i Blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Angela Edevane | Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| Carys Kennedy | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Jacqueline Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i blant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Greg Dix | Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Louise Mann | Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Mark Attwell | Uwcharolygydd, Uned Reoli Sylfaenol Morgannwg Ganol | Heddlu De Cymru |
| Sue Hurley | Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Emma Richards | Prif Swyddog Cynorthwyol | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Sharon Richards | Prif Swyddog | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| Maria James | Cynrychiolydd Trydydd Sector, Merthyr Tudful | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| Lyndon Lewis | Pennaeth Gwasanaeth | Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf |
| Virginia Hewitt | Nyrs ddynodedig | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Lin Slater | Cynrychiolydd NISB | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| Nikki Harvey | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Jason Evans | Pennaeth yr Uned Pobl Ifainc | Parc, Sefydliad Carchardai a Throseddwyr Ifainc EF |
| Ian Coles | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro | Parc, Sefydliad Carchardai a Throseddwyr Ifainc EF |

# Rhestr Termau

**Adolygiad Ymarfer Oedolion**

Rhaid i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gomisiynu Adolygiad Ymarfer Oedolion mewn achosion lle mae oedolyn sy'n wynebu risg wedi marw, wedi cael anaf y byddai modd iddo fygwth ei fywyd neu wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd.

**Adolygiad Ymarfer Plant**

Rhaid i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gomisiynu Adolygiad Ymarfer Plant mewn achosion lle mae plentyn wedi marw, wedi cael anaf y byddai modd iddo fygwth ei fywyd neu wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd.

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant**

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol. Mae plant sydd mewn sefyllfaoedd a pherthnasau peryglus yn derbyn rhoddion, arian neu anwyldeb (er enghraifft) am gyflawni gweithgareddau rhywiol neu am adael i eraill berfformio gweithgareddau rhywiol arnyn nhw

**Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw llys wedi rhoi gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu os yw adran Gwasanaethau i Blant y Cyngor wedi gofalu am y plentyn am dros 24 awr.

**Partneriaeth Cymunedau Diogel**

Partneriaeth statudol i ddatblygu a gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiadau eraill sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol.

**Adolygiad Dynladdiad Domestig**

Mae Adolygiad o Ddynladdiad Domestig (ADD /'DHR') yn adolygiad amlasiantaeth sy'n cael ei gynnal yn lleol pan fo amgylchiadau marwolaeth person 16 oed neu hŷn yn awgrymu trais, cam-drin neu esgeulustod gan berthynas, rhywun roedd ef/hi'n rhannu perthynas agos a rhywiol ag ef/hi; neu rywun arall ar yr aelwyd.

**Camfanteisio**

Mae camfanteisio yn fath o gamdriniaeth. Mae camfanteisio'n golygu cael eich paratoi, eich gorfodi neu'ch manipiwleiddio i wneud rhywbeth nad ydych chi eisiau ei wneud er budd rhywun arall.

**Grŵp Ymateb Uniongyrchol (IRG)**

Mae'r grŵp yma'n ymgynnull i sicrhau ymateb cyflym, amlasiantaeth i reoli deilliannau digwyddiad critigol. Mae'r digwyddiadau o'r fath yn cynnwys achosion marwolaeth annisgwyl oedolyn sy'n cael eu harwain gan Uwcharolygydd yr Heddlu (neu ddirprwy addas).

**Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)**

Dyma gyfarfod rheoli risg wythnosol lle mae gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth am achosion risg uchel o gam-drin domestig ac esgeulustod, a rhoi cynllun rheoli risg ar waith.

**Caethwasiaeth Fodern**

Camfanteisio’n anghyfreithlon ar bobl er budd personol neu fasnachol. Mae'r camfanteisio yma'n ymdrin ag ystod eang o gam-drin a chamfanteisio gan gynnwys camfanteisio rhywiol, caethwasanaeth domestig, llafur gorfodol, camfanteisio troseddol a chynaeafu organau.

**Cylch Trafod i Ymarferwyr Amlasiantaeth (MAPF)**

Mae cylchoedd trafod amlasiantaeth yn fecanwaith ar gyfer dysgu sefydliadol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd a chryfhau gallu gwasanaethau i gadw plant yn ddiogel. Maen nhw'n defnyddio gwybodaeth am achosion, canlyniadau archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau amddiffyn plant i ddatblygu a rhannu dysgu er mwyn gwella gwybodaeth ac arfer lleol a llywio archwiliad y Bwrdd a blaenoriaethau hyfforddiant yn y dyfodol.

**Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN)**

Mae gan y ffurflenni ddau brif bwrpas. Un er mwyn i Swyddogion yr Heddlu wneud atgyfeiriadau at asiantaethau partner pan fo gyda nhw bryderon am bobl sy'n agored i niwed. Mae'r PPN hefyd yn cael ei ddefnyddio'n adnodd asesu risg ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu (DASH).

**Prevent**

Amcan strategaeth Prevent yw diogelu a chefnogi'r rheiny sy'n agored i gael eu radicaleiddio.

**Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC)**

Mae'r weithdrefn yma'n gosod safon ofynnol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl yn ystod babandod a phlentyndod. Mae'n disgrifio'r broses gyfathrebu, gweithredu ar y cyd a rhannu gwybodaeth yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

**Grwpiau Sicrhau Ansawdd a Chyflawniad**

Mae dau grŵp ar wahân yn bodoli ar gyfer oedolion a phlant er mwyn monitro effeithiolrwydd arferion asiantaethau o fewn y prosesau diogelu, ac annog safonau uchel o ymarfer gan bawb sy'n ymwneud â gwaith diogelu. Caiff y gwaith hynny ei wneud trwy hyrwyddo atebolrwydd asiantaethau ac unigolion trwy fonitro a gwerthuso cyflawniad.

**Hunanesgeulustod**

Mae hunanesgeulustod yn derm cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio oedolyn agored i niwed yn byw mewn ffordd sy'n peryglu ei iechyd, ei ddiogelwch neu ei les.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw, a chynhalwyr y mae angen cymorth arnyn nhw.

**Trafodaeth/Cyfarfod Strategaeth**

Cyfarfod i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i gynllunio'r hyn maen nhw'n mynd i'w wneud nesaf ynglŷn ag achos.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar atal y materion yma, diogelu dioddefwyr a chynnig cymorth ar gyfer y sawl sydd wedi cael eu heffeithio gan faterion o'r fath.